# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Gorffennaf 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 27)

## 2 Deiseb y Flwyddyn

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi Deiseb y Flwyddyn

## 3 Deisebau newydd

3.1 P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

(Tudalennau 28 - 36)

3.2 P-06-1339 Dylid creu gofyniad bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob cartref newydd yng Nghymru, a hynny fel amod o sicrhau caniatâd cynllunio

(Tudalennau 37 - 45)

3.3 P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru

(Tudalennau 46 - 52)

3.4 P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

(Tudalennau 53 - 59)

3.5 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

(Tudalennau 60 - 67)

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

4.1 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

(Tudalennau 68 - 74)

4.2 P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

(Tudalennau 75 - 80)

4.3 P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd

(Tudalennau 81 - 83)

4.4 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

(Tudalennau 84 - 85)

4.5 P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed

(Tudalennau 86 - 87)

4.6 P-06-1313 Dylid caniatáu eithriadau i'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod i leihau niwed i fusnesau hunanddarpar dilys yng Nghymru

(Tudalennau 88 - 91)

4.7 P-06-1317 Cydnabod pwysigrwydd Cynorthwywyr Addysgu fel asedau pwysig i ysgolion drwy godi eu cyflog

(Tudalennau 92 - 94)

4.8 P-06-1319 Rhowch groesfan i gerddwyr ar yr A4042 wrth groesffordd Goytre Arms a lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya

(Tudalennau 95 - 98)

4.9 P-06-1320 Dyrannu cyllid ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau ei fod yn gynaliadwy

(Tudalennau 99 - 100)

4.10 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru

(Tudalennau 101 - 102)

4.11 Papur i'w nodi- P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

(Tudalennau 103 - 112)

## Deisebau sy'n parhau o'r 5ed Senedd

4.12 P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

(Tudalennau 113 - 114)

4.13 P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer yr Anabl

(Tudalen 115)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Forward Work Plan Autumn 2023

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

Y Pwyllgor Deisebau | 03 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 03 July 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5996-6

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1338

**Teitl y ddeiseb:** Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau.

**Geiriad y ddeiseb:** Yn ystod y pandemig, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun brys ar gyfer y sector bysiau i ddiogelu'r rhwydwaith bysiau.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried dod â'r cynllun hwn i ben, er gwaethaf y ffaith nad yw nifer y teithwyr wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Rydym am weld y cyllid yn cael ei sicrhau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a chynllun adfer cenedlaethol ar gyfer y sector bysiau'n cael ei gynhyrchu ar y cyd â gweithredwyr bysiau, teithwyr, awdurdodau lleol ac eraill, er mwyn adeiladu gwasanaethau bysiau mwy cynhwysfawr a chynaliadwy.

# 1. Y cefndir


Fel y mae'r siart isod yn ei ddangos, mae niferoedd y teithwyr wedi bod yn lleihau ledled Prydain Fawr, y tu allan i Lundain, ers degawd – sy'n rhan o duedd tuag i lawr sydd wedi bod yn digwydd ers amser.

Mae llawer o ffactorau y tu ôl i'r duedd hon, fel mwy o siopa ar-lein, dewisiadau amgen i deithio ar fysiau, a newid yn agweddau'r cyhoedd. Mae cynnydd mewn tagfeydd traffig hefyd yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar hyfywedd gwasanaethau bysiau.

Fodd bynnag, mae'r siart hefyd yn dangos effaith ddifrifol y pandemig COVID-19. Mae'r galw wedi parhau'n isel yn dilyn pryderon cychwynnol ynghylch iechyd, a chyngor i beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mynegai teithiau teithwyr ar wasanaethau bysiau lleol yn ôl gwlad a blwyddyn (ac eithrio Llundain)

Ffynhonnell: Yr Adran Drafnidiaeth (Saesneg yn unig)




Ffynhonnell: Yr Adran Drafnidiaeth (Saesneg yn unig)

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol, a gwasanaethau bysiau yn arbennig yn cael ei chydnabod yn eang fel rhywbeth pwysig, nid yn unig ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd, ond hefyd i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## Newid moddol a thargedau datgarboneiddio

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod 45 y cant o deithiau yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol) erbyn 2040. Amcangyfrifir bod 32 y cant o deithiau'n cael eu gwneud fel hyn ar hyn o bryd.

Mae Cymru Sero Net yn anelu at ddisodli'r 50 y cant o fysiau sy'n llygru fwyaf gyda fflyd bysiau heb ddim allyriadau o bibellau mwg erbyn 2028.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod cyrraedd ei thargedau newid moddol a sero net yn her fawr.

## Cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o gymorth ariannol i'r diwydiant bysiau. Ym mis Ionawr, darparodd bapur i Bwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn amlinellu'r dyraniadau cyllideb ddrafft gan yr Adran Newid Hinsawdd ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad pum mlynedd o'r holl gyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau drwy amrywiol sianeli (gweler tudalennau 15 ac 16 o'r papur).

Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth sylweddol i wasanaethau bysiau yn ystod y pandemig, drwy sefydlu'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau. Mae wedi parhau ar ryw ffurf neu'i gilydd ers dechrau 2020. Mae papur y gyllideb ddrafft yn nodi bod dros £150 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Cynllun rhwng 2020-21 a 2022-23.

Mae'r papur hefyd yn dangos bod £28 miliwn o gyllid y Cynllun wedi'i gynnwys i ddechrau yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Roedd hyn yn cyfateb i'r cyllid a ddarparwyd yn 2022-23.

Fodd bynnag, ar 10 Chwefror, llai na thair wythnos ar ôl sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 25 Ionawr gyda'r gweinidogion Newid Hinsawdd, dywedodd Llywodraeth Cymru fod amheuaeth ynghylch dyfodol y cyllid hwn.

Cyhoeddodd y byddai cyfnod "pontio" o dri mis o fis Ebrill 2023 cyn i'r cynllun gael ei dynnu'n ôl. Dywedodd y byddai hyn yn caniatáu "sefydlogrwydd tymor byr" tra bod y llywodraeth a'r gweithredwyr "yn parhau i gydweithio ar gynllunio rhwydweithiau sy'n gweddu'n well i'r patrymau teithio newydd yr ydym wedi'u gweld ers diwedd y pandemig."

Mewn datganiad ym mis Mawrth 2023 dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS, y byddai'r cynllun "nawr yn para hyd at 24 Gorffennaf 2023" - sef estyniad tair wythnos sy'n sicrhau bod trafnidiaeth i'r ysgol "yn parhau fel arfer". Aiff y datganiad yn ei flaen i ddweud:

> Rwyf wedi gofyn i Drafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol sefydlu timau cynllunio rhwydweithiau rhanbarthol, i ddeall effaith diwedd BES ac i ddatrys materion o ran y rhwydwaith sy'n debygol o godi yn sgil y newid i'r drefn ariannu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith mor effeithlon â phosibl ac y gall cymaint â phosibl ei ddefnyddio.

Yn y datganiad hefyd cyhoeddwyd sefydlu panel o arbenigwyr i gynghori ar weithredu papur gwyn diwygio bysiau Llywodraeth Cymru 2022.

Ar 23 Mai gwnaeth y Dirprwy Weinidog ddatganiad pellach yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau bysiau. Dywedodd eu bod bron â chyrraedd datrysiad a fydd yn sicrhau bod rhagor o gyllid ar gael i ddiogelu cymaint o'r rhwydwaith â phosibl am weddill y flwyddyn ariannol hon. Byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £46 miliwn ar gael o gyllidebau bysiau i gefnogi'r Cynllun Brys a threfniadau olynol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, yn ogystal â chyllid teithio rhatach a chefnogaeth reolaidd arall ar gyfer gwasanaethau.

Fodd bynnag, dywedodd mai'r her nawr yw dylunio rhwydwaith a all wasanaethu teithwyr orau yn yr amser sydd ar gael i gynllunio, ac o fewn y cyllid sydd ar gael.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Jack Sargeant AS, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn gobeithio, erbyn diwedd hyn, y bydd yn gallu rhoi sicrwydd i etholwyr Jack Sargeant y bydd llawer, os nad y rhan fwyaf o'r gwasanaethau, yn dal i fod yno.

Mae llythyr y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd yn ymateb i'r ddeiseb hon yn rhagddyddio'r datganiad ar 23 Mai. Mae'r datganiad yn cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae dyfodol y Cynllun Brys wedi cael ei drafod yn helaeth yn y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys yn nadl Plaid Cymru ar y mater ar 22 Mawrth. Mae nifer o gwestiynau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno hefyd.

Cafodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith dystiolaeth ar 11 Mai gan awdurdodau lleol Cymru a chynrychiolwyr y diwydiant bysiau ar gynaliadwyedd gwasanaethau bysiau yn dilyn y cyhoeddiad. Roedd y dystiolaeth hon yn pwysleisio maint yr her wrth ymateb i'r gostyngiadau cyllid, ond roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Roedd y sesiwn dystiolaeth hon yn dilyn ymlaen o ymchwiliad y Pwyllgor i deithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru y cyflwynwyd adroddiad ar y mater ym mis Ionawr 2023. Roedd yr ymchwiliad yn trafod sut y dylid cefnogi gwasanaethau bysiau a threnau i wella ar ôl effaith y pandemig COVID-19.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1338
Ein cyf/Our ref LW/00843/23

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

10 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 25 Ebrill ynglŷn â deiseb y mae'r Pwyllgor wedi ei derbyn gan Andrew Jenkins ar gyllid bws yn y dyfodol.

Diolch i gamreoli economaidd Llywodraeth y DU rydyn ni'n wynebu pwysau ariannol digynsail a dewisiadau anodd o ran dyraniadau cyllid.

Fel y gwyddoch, mae'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) wedi cadw gwasanaethau bws hanfodol i redeg drwy gydol y pandemig. Roedd y cynllun i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2023, ond yn dilyn trafodaethau helaeth, fe wnaethom gyhoeddi ym mis Chwefror y byddai'n cael ei ymestyn am gyfnod trosiannol cychwynnol o dri mis hyd at ddiwedd Mehefin 2023.

Yn dilyn sgyrsiau pellach mae BES wedi cael ei hymestyn am gyfnod pellach o dair wythnos hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, 24 Gorffennaf 2023 Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Panel Arbenigol ar Fasnachfreinio (31 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU). Bydd hyn yn golygu y bydd cludiant i ysgolion yn parhau yn ôl yr arfer. Bydd hefyd yn rhoi sefydlogrwydd pellach i'r diwydiant wrth inni weithio ar symud i ffwrdd o gyllid brys i gynllunio rhwydweithiau bysiau sy'n cyfateb yn well i'r patrymau teithio newydd rydyn ni wedi'u gweld ers diwedd y pandemig.

Mae Timau Cynllunio Rhanbarthol wedi'u sefydlu i asesu'r effaith debygol ar ein rhwydweithiau bysiau pan fydd cyllid BES yn dod i ben ar 24 Gorffennaf. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda'r timau hyn i gynllunio a blaenoriaethu'r gwasanaethau a fydd yn gwasanaethu ein cymunedau orau o fewn y gyllideb a fydd ar gael y tu hwnt i'r pwynt hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi gweld newidiadau parhaol mewn patrymau teithio, lle nad yw nifer y teithwyr wedi gwella.  Rydym wedi cydnabod bod cefnogaeth frys i'r diwydiant wedi bod yn hanfodol, ond yn amlwg bydd angen i'r rhwydwaith newid yn y dyfodol.

Mae gweithio ar y cyd â phartneriaid allweddol yn hanfodol gan ein bod bellach yn ystyried opsiynau i symud i ffwrdd o ddarparu cyllid brys i’r sector bysiau o fewn y cyllidebau sydd ar gael.  Rwyf i a fy swyddogion yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r diwydiant ac awdurdodau lleol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydym hefyd yn trafod â'r diwydiant bysiau a'u sefydliadau masnach wrth ddatblygu ymgyrch farchnata a fydd yn annog pobl i deithio unwaith eto ar fysiau ac yn hyrwyddo’r manteision o wneud hynny.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

**Subject: Petition P-06-1338**

Dear Jack Sargeant MS,

Firstly, I would like to thank the Petitions Committee and staff for considering this petition.

Our democratic institutions work best when all people are given the tools they need to highlight issues of importance to them, to influence decision makers and play an active role in how policy is formed, services delivered and change achieved. This is a point I will return to later in this response.

I also would like to thank the Deputy Minister for his response to the Petitions Committee Chair. I am grateful for the opportunity to provide my observations for the attention of the committee.

The Deputy Minister's response outlines the current position very well. Public transport was effectively shut down during the pandemic, with very few services running in order to provide transport for some key workers. Through 2020 and 2021, even when not in lockdown, the advice stressed to the public was to stay away from public transport.

As someone reliant on buses, I actively avoided buses for quite a while after the advice against buses ceased. Only when my son started school and it was necessary for me to once again get on the bus did I do so.

My point here is that despite being a thirty-something year old man in good health, I was reluctant to go back to buses due to the strength of the public health messaging. For those who have poorer health than me, it is not surprising that many of them continue to have concerns about the safety of buses. While I welcome the Deputy Minister's comment about a "back to bus" campaign, I would like to know why such a campaign is only now being discussed. After two years of telling people not to use the bus - why did no one in government think that the opposite message needed to be delivered in equally strong terms once things were safer?

In a matter of weeks services will be reduced - thankfully not to the extent originally feared when I started this petition - but with funding reductions due the network will be smaller. Cuts will still take place, services will be reduced or removed entirely. This will have an impact on people, an impact that could have been avoided.

For much of the last year there has been references in Senedd committees, Cross Party Groups, and in the Siambr (sometimes by the Deputy Minister and First Minister) that the lack of passenger number recovery was putting services at risk and putting a strain on public funds. There have also been, in recent years, a number of campaign weeks or months (*Catch the Bus Week/Catch the Bus Month*) that have provided opportunities for the Government to highlight the contribution that buses make and how important they are to our community wellbeing.

That's is why I put in my initial petition that we need a recovery plan, co-produced by those within the bus industry and passengers (and even passengers who have not yet returned), to assess the problem with numbers and work towards getting numbers back up. This was going to be a difficult task with the current level of service, but with funding cuts and a smaller, less comprehensive and convenient network, I fear this task is now even more challenging.

The Deputy Minister's response also refers to stakeholders that have been involved in discussions, and will be involved in designing the campaign. Going back to my point earlier about public involvement and influence, what role does the Deputy Minister have in mind for passengers? They are the most important stakeholder in this process but have been notably absent.

That is why I would appreciate the Committee, when considering this petition, do not think the matter is resolved simply because some funding will continue and a campaign will - at some point - begin.

We need funding guarantees and we need a plan that involves all stakeholders - especially bus users (regular passengers, not just the organisation Bus Users UK) - in order to address the long term managed decline of bus services in Wales.

Buses currently provide an essential service. They connect our communities and improve the health, wealth and wellbeing of our nation. The support the Welsh Government has shown in recent years should be recognised and applauded, so too should the references to public transport in the travel hierarchy and the ambitions of the *One Network – One Ticket* white paper, but there is a lot more work that needs to be done to build a sustainable, comprehensive network. With a legislative solution still years away from being realised, effort is needed now.

Buses cannot continue to be low down in priorities of politicians. As a bus user who has seen the dreadful impact loss of services can have on people, I ask for leadership and I ask for bus users to be included - we want to help. I ask the Petitions Committee to ask the following;

- What is the suggested timeline for a Back to Bus campaign?
- What are the key outcomes and targets of the campaign?
- How are bus passengers involved in the design and delivery of this campaign?
- What immediate guidance or materials can be given to bus operators, local authorities and members of the public to start promoting bus journeys right now?
- Will we see members of the Government use every available and appropriate opportunity to promote buses and highlight their safety?

Thank you once again for your consideration and for allowing me to provide this additional submission.

Kind regards
Andrew Jenkins

Eitem 3.2

# P-06-1339 Dylid creu gofyniad bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob cartref newydd yng Nghymru, a hynny fel amod o sicrhau caniatâd cynllunio.

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 3 July 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5997-2

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1339

**Teitl y ddeiseb**: Dylid creu gofyniad bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob cartref newydd yng Nghymru, a hynny fel amod o sicrhau caniatâd cynllunio.

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r byd yn wynebu argyfwng ynni, ac rydym i gyd yn wynebu argyfyngau brawychus o ran yr hinsawdd a byd natur. Dyma pam mae mor bwysig bod Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran sicrhau ffynonellau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.

Dyma pam y dylai pob adeilad diwydiannol, masnachol a domestig newydd (nad yw yn y cysgod nac yn wynebu'r gogledd) gynnwys cyfarpar ynni solar fel rhan o'r broses o gael caniatâd cynllunio.

Mae'r haul yn cynhyrchu mwy na digon o ynni i ddiwallu anghenion ynni'r byd i gyd, ac nid yw'r ynni hwnnw'n debygol o ddod i ben.

Mae nifer o fanteision amgylcheddol ynghlwm wrth ddefnyddio paneli solar. Maent yn cynhyrchu ynni gwyrdd, ac nid ydynt yn creu allyriadau wrth wneud hynny:

1. Maent yn lleihau'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio o'r Grid Cenedlaethol. Maent yn lleihau tlodi ynni ac yn ein helpu ni i gadw’r goleuadau ymlaen.

2. Nid ydynt yn creu allyriadau. Gallant leihau ôl troed carbon eich cartref 80 y cant mewn blwyddyn.

3. Maent yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae ynni solar yn fath o ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn golygu bod digon ohono i bawb ei rannu, gan ei fod yn ffynhonnell o ynni na fydd yn dod i ben (nid am biliynau o flynyddoedd, beth bynnag). Mae tanwyddau ffosil yn ffynonellau cyfyngedig o ynni, ac rydym yn niweidio'r blaned pan fyddwn yn cloddio amdanynt ac yn eu dosbarthu.

4. Maent yn para am amser hir ac nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw arnynt, os o gwbl. Mae angen ailosod unedau gwresogi confensiynol a gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt yn gymharol reolaidd. Gall hyn achosi llawer o wastraff nad yw'n ecogyfeillgar, yn ogystal â chynyddu'r angen am fwy o unedau. Gan fod paneli solar yn para tua 50 mlynedd, ni ddylai fod angen i chi eu hadnewyddu am amser hir.

# 1. Cefndir

Mae Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd wedi clywed tai preifat ac yn cael eu disgrifio fel “yr eliffant sero-net yn yr ystafell” ar gyfer cyrraedd Targed Llywodraeth Cymru o sero net erbyn 2050. Er bod y cyfeiriad penodol hwnnw’n canolbwyntio ar yr angen i ôl-osod cartrefi presennol i wella effeithlonrwydd ynni, bydd effeithlonrwydd cartrefi newydd hefyd yn chwarae rhan allweddol.

Mae adroddiad cynnydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ym mis Mehefin 2023 ar leihau allyriadau yng Nghymru wedi canfod bod capasiti ynni adnewyddadwy Cymru wedi cynyddu dros amser ond mae’r gyfradd gosod pŵer solar wedi arafu ers 2016.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad ar ddatblygwyr i osod paneli solar ar adeiladau newydd, fodd bynnag, mae mecanweithiau wedi'u cynllunio er mwyn galluogi a hyrwyddo eu gosod.

### Hawliau datblygu a ganiateir

Mae rhai mathau o ddatblygiadau yn cael eu diffinio gan gyfraith cynllunio fel rhai 'a ganiateir' ac felly yn cael caniatâd cynllunio yn awtomatig. Mae hyn yn cynnwys nifer o brosiectau cartrefi cyffredin sy'n bodloni meini prawf penodol.

Mae hawliau datblygu a ganiateir sy'n caniatáu gosod offer microgynhyrchu, gan gynnwys paneli solar ar doeau ar eiddo domestig ac annomestig yng Nghymru, heb orfod gwneud cais cynllunio. Lle nad yw meini prawf penodol yn cael eu bodloni byddai angen cais cynllunio.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi hysbysiad hwylus ar gynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach sy'n darparu rhagor o wybodaeth.

### Rheoliadau Adeiladu

Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu gwneud o dan *Ddeddf Adeiladu 1984*. Maent yn llywodraethu'r ffordd y dylid adeiladu adeiladau drwy bennu safonau gofynnol ar gyfer dylunio, adeiladu ac addasiadau. Darperir canllawiau technegol ar sut i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu yn y 'dogfennau cymeradwy'.

Mae Rhan L o'r dogfennau a gymeradwyir yn ymwneud â chadwraeth tanwydd a phŵer.

Yn 2022 cwblhaodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Ran L. Roedd yn cyflwyno safonau gofynnol effeithlonrwydd ynni uwch ar gyfer pob cartref newydd nag a oedd yn ofynnol yn flaenorol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r Rheoliadau Adeiladu yn rhagnodi mathau penodol o wresogi neu gynhyrchu ynni i'w defnyddio i fodloni safonau.

Mae adolygiad pellach o Ran L wedi'i gynllunio ar gyfer 2025.

## Gwledydd eraill

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cynnig gwneud paneli solar yn orfodol ar bob adeilad newydd yn yr UE. Byddai'r fenter toeau solar, sy'n rhan o Gynllun REPowerEU y Comisiwn Ewropeaidd, yn gweld gofyniad i osod paneli solar ar adeiladau preswyl, cyhoeddus a masnachol newydd.

Mae Japan eisoes wedi pasio rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cael paneli solar ar bob tŷ newydd a gaiff ei adeiladu yn Tokyo gan 'adeiladwyr tai ar raddfa fawr' ar ôl mis Ebrill 2025.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 7 Mehefin, dywedodd Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ei bod yn cytuno'n llwyr â'r deisebydd ar "raddfa'r argyfwng hinsawdd a natur yr ydym yn ei wynebu".

Er bod y Gweinidog yn dweud bod y "cynnig y dylid gosod paneli ynni solar ar bob adeilad newydd, mewn egwyddor, yn awgrym da", yn ei barn hi mae sawl rheswm pam nad yw'n credu y dylid ei fandadu ar hyn o bryd.

Yn ei llythyr, mae'r Gweinidog yn awgrymu fel a ganlyn:

- dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o ymdrin â Rheoliadau Adeiladu, y diwygiadau y mae wedi'u gwneud ac y mae'n bwriadu eu gwneud yw'r camau cywir i gyflawni niwtraliaeth carbon dros amser;
- hawliau datblygu presennol a ganiateir yn taro 'cydbwysedd priodol' i ganiatáu gosodiadau solar wrth ystyried eiddo cyfagos;
- efallai na fydd paneli solar yn addas ar gyfer pob eiddo – mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y cyfeiriad y mae eiddo yn ei wynebu, a yw eiddo wedi'i leoli mewn ardaloedd gwarchodedig, yn adeiladau rhestredig a phroblemau penodol posibl ar gyfer rhai mathau o adeiladau;
- problemau posibl gyda chyflenwad paneli solar os bydd y galw yn cynyddu; ac
- y gallai mandadu un dechnoleg achosi oedi i ymddangosiad technolegau newydd ac atebion ynni mwy effeithlon.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd wedi ystyried deiseb debyg iawn i'r ddeiseb hon. Ar yr adeg honno, caeodd y Pwyllgor y ddeiseb gan nodi nad oedd llawer o gamau y gallent eu cymryd ar y mater.

Ym mis Mehefin, cyfeiriodd y Gweinidog at y mater o ran ei gwneud yn ofynnol cael paneli solar mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau o'r Senedd ar adroddiad cynnydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y papur briffio hwn.

Mae hefyd yn werth nodi bod y mater wedi'i godi yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn 2022 ystyriodd ddeiseb debyg. Roedd ymateb Llywodraeth y DU yn cyfeirio at fodolaeth hawliau datblygu a ganiateir a Rheoliadau Adeiladu.

Hefyd ar lefel y DU, gosododd John Stevenson, Aelod Ceidwadol o Senedd y DU welliant i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio yn galw am osod paneli solar ym mhob cartref newydd yn Lloegr o 2025 ymlaen, ond ni chafodd ei roi i bleidlais.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1339
Ein cyf/Our ref JJ/01461/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Mehefin 2023

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Mai 2023 ynghylch deiseb i geisio sicrhau bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob adeilad newydd.

Rwyf wedi ystyried cais y deisebwr: -

> *Mae'r byd yn wynebu argyfwng ynni dybryd ac rydym i gyd yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur brawychus. Dyma pam mae mor bwysig y dylai Llywodraeth Cymru gamu i'r adwy i sicrhau ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer y dyfodol.*
>
> *Dyma pam y dylai adeiladau diwydiannol, masnachol a domestig newydd (nad ydynt wedi'u lleoli mewn cysgod nac yn wynebu'r gogledd) gynnwys ynni solar yn rhan o'u cydsyniad cynllunio.*

Cytunaf yn llwyr â'r deisebwr ynghylch graddfa'r argyfwng hinsawdd a natur yr ydym yn ei wynebu a'r angen i weithredu ar frys. Rwy'n sylweddoli'n llawn pa mor fawr yw'r her sy'n ein hwynebu a'r angen i weithredu. Mae fy nghydweithwyr ar draws y llywodraeth yn rhannu'r un farn ac rydym yn barod i wrando ar bob syniad ac awgrym ynghylch sut orau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae'r materion a wynebwn yn gymhleth ac yn amlweddog. Fel y deallwn i gyd, y dewisiadau, yr arferion a'r newidiadau technegol a chymdeithasol a welwyd ar draws sawl cenhedlaeth sy'n gyfrifol amdanynt. Mae llawer o'r penderfyniadau a wnaethom yn y gorffennol ynghylch ble rydym yn byw, sut ydym yn cynhyrchu ynni, sut ydym yn teithio a sut ydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol, er iddynt gael eu gwneud er lles y gymdeithas ar y pryd, bellach wedi arwain at andros o her i sicrhau'r dyfodol gorau posibl ar gyfer y cenedlaethau nesaf.

Mae'r atebion yn gymhleth hefyd a bydd angen cymryd camau cydgysylltiedig ar bob raddfa wrth inni benderfynu sut orau i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn. Rydym eisoes wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwneud penderfyniadau anodd o ran sut y dylai mannau gael eu newid, y safonau y bydd angen i adeiladau newydd eu bodloni, y seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd a sut ydym am ddiogelu a rheoli ein hamgylchedd naturiol. Mae llawer mwy o benderfyniadau pwysig eto i'w gwneud.

Mae'r cynnig y dylid gosod paneli ynni solar ar bob adeilad newydd, mewn egwyddor, yn awgrym da. Mae toeon o'n cwmpas i gyd ac rydym yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â gweld paneli solar yn yr amgylchedd ac mae'r dechnoleg wedi'i phrofi. Fodd bynnag, mae rhesymau pwysig ynghylch pam nad wyf yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol gosod paneli solar ar bob adeilad newydd ar hyn o bryd. Mae'r rhesymau hynny fel a ganlyn:-

**1. Dull gweithredu'r Rheoliadau Adeiladu**

Yn gyffredinol, mae'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru yn niwtral o ran technoleg a thanwydd. Nid ydynt yn rhagnodi nac yn gwahardd unrhyw fath penodol o system wresogi neu gynhyrchu ynni. Y bwriad yw sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran cyflawni targedau ynni, gan ddefnyddio'r atebion gorau a mwyaf priodol ym mhob achos unigol, ac osgoi creu rhwystr anfwriadol i syniadau arloesol newydd drwy benderfynu bod un dechnoleg yn cael ei gosod yn lle technoleg arall. Nid yw Rhan L o Reoliadau Adeiladu 2022, felly, yn gorfodi technoleg benodol (fel paneli solar ffotofoltaig). Fodd bynnag, caiff paneli solar ffotofoltaig eu cynnwys yn y fanyleb adeilad tybiannol sy'n gosod y targed ynni. Mae hyn yn ei dro yn annog defnyddio ynni adnewyddadwy mewn anheddau newydd.

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu yn 2022 a arweiniodd at godi'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol yn sylweddol ar gyfer pob cartref newydd. Cyflwynodd gwelliannau 2022 ostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon ar gyfer anheddau newydd (o'i gymharu â'r safon flaenorol). Ar ben hynny, bydd angen i bob cartref newydd gael ei ddiogelu at y dyfodol, i'w gwneud hi'n haws ôl-osod systemau gwresogi carbon isel.

Bwriedir i'r gostyngiad o 37% fod yn gam tuag at newidiadau nesaf Rhan L yn 2025 pan fwriedir i bob cartref newydd gynhyrchu o leiaf 75% yn llai o allyriadau CO2 na'r rhai a adeiladwyd i ofynion blaenorol Rhan L (2014). Mae ein gweledigaeth ar gyfer safon Rhan L 2025 wedi'i chynllunio i symud i ffynonellau gwres carbon isel ar gyfer gwresogi a dŵr poeth. Mae hyn yn golygu y bydd adeiladau newydd a adeiladwyd i'r safon yn gallu dod yn garbon niwtral dros amser wrth i'r grid trydan a'r rhwydweithiau gwres ddatgarboneiddio.

Rwy'n hyderus felly bod y dull cyffredinol o weithredu'r Rheoliadau Adeiladu, y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud a'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud yn gywir i fod yn garbon niwtral dros amser.

**2. Yr Hawliau Datblygu a Ganiateir sydd ar gael**

Mae adeiladau domestig ac annomestig yn elwa ar hawliau datblygu a ganiateir sydd eisoes yn bodoli sy'n caniatáu gosod paneli solar ffotofoltaig (trydan) a phaneli thermol solar (gwres) a hynny'n ddarostyngedig i amodau penodol. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn yn golygu nad oes angen cyflwyno cais cynllunio ar gyfer eu gosod. Mae rhai cyfyngiadau ac amodau yn berthnasol fel bod paneli, er enghraifft, yn cael eu lleoli'n briodol ar adeilad. Dylid lleoli paneli solar fel eu bod yn effeithio cyn lleied â phosibl ar olwg allanol adeilad neu amwynder yr ardal ehangach. Pan fo angen cais cynllunio, nid yw hyn yn ddyfarniad negyddol o gynnig i osod paneli solar, ond yn hytrach i sicrhau bod amwynder yr eiddo cyfagos a'r ardal ehangach yn cael ei ystyried yn llawn gan yr awdurdod cynllunio lleol.

O dan yr hawliau datblygu a ganiateir, gall eiddo domestig osod paneli solar sy'n cynhyrchu hyd at 50kw o drydan neu 45kw o wres. Ar gyfer eiddo annomestig nid oes terfyn uchaf sy'n golygu y gellir bwrw ymlaen â chynlluniau solar ar doeon ar raddfa sylweddol heb fod angen cyflwyno cais cynllunio.

Rwy'n fodlon bod ein hawliau datblygu a ganiateir presennol yn taro cydbwysedd priodol rhwng caniatáu gosodiadau solar domestig ac annomestig a'r angen i sicrhau bod harddwch eiddo cyfagos a'r ardal ehangach yn cael ei ystyried yn briodol.

**3. Ystyriaethau Eraill**

Efallai na fydd paneli solar yn addas ar gyfer pob eiddo. Caiff yr effeithlonrwydd a'r ynni mwyaf eu cynhyrchu drwy osod paneli solar ar do sy'n wynebu'r de ac sydd ar oleddf. Mae toeon sy'n wynebu'r dwyrain a'r gorllewin yn gallu bod 15-20% yn llai effeithlon, a bydd toeon sy'n wynebu'r gogledd yn llai effeithlon eto. Gall cysgod gan nodweddion naturiol, fel coed, neu gan adeiladau a strwythurau talach hefyd effeithio'n negyddol ar effeithlonrwydd a'r ynni a gynhyrchir.

Gall technolegau eraill fel pympiau gwres o'r ddaear, ffynhonnell dŵr a ffynhonnell aer ar gyfer adeiladau domestig ac annomestig a thyrbinau gwynt ddarparu atebion mwy effeithlon a mwy effeithiol. Dylai mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio hefyd fod yn rhan sylweddol o'r ateb ochr yn ochr ag unrhyw ynni adnewyddadwy. Ar raddfa gymdogaeth, dylai rhwydweithiau gwresogi ardal a mentrau perchnogaeth gymunedol hefyd fod yn ystyriaeth gyda'r potensial i ddarparu atebion mwy effeithlon a chosteffeithiol.

Gall harddwch gweledol fod yn fater i'w ystyried mewn lleoliadau hanesyddol a gwarchodedig lle gall cyfundrefnau cydsynio ar wahân fod yn berthnasol hefyd, megis Cydsyniad Adeilad Rhestredig. Nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir sy'n bodoli eisoes ar gyfer adeiladau annomestig yn caniatáu gosod paneli solar o fewn 3km i berimedr maes awyr neu faes glanio. Hefyd dylid lleoli'r paneli, hyd y gellir, mewn modd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith gan lewyrch neu ddisgleirdeb. Byddai angen i unrhyw gyfundrefn newydd ystyried sut y byddai'r materion hyn yn cael eu trin a'u rheoli.

Efallai y bydd problemau o ran costau hyfywedd, gosod a chynnal a chadw, goblygiadau penodol ar gyfer gwahanol fathau o adeiladau (e.e. fflatiau o'u cymharu â thai). Gall mandadu un math o dechnoleg hefyd oedi datblygiad technolegau solar newydd a thechnolegau eraill ac atebion ynni mwy effeithlon. Efallai y bydd problemau o ran a fydd digon o gyflenwad o baneli solar i ateb y galw cynyddol am adeiladau. Byddai angen i unrhyw gyfundrefn newydd ystyried hyn a materion posibl eraill.

Am y rhesymau hyn, er fy mod yn gefnogol iawn i osod paneli solar ar adeiladau, nid wyf yn credu ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol gosod paneli solar ar bob eiddo newydd.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1339 Require all new Welsh homes to be fitted with solar panels as a condition of planning permission, Correspondence – Petitioner to Committee, 27.06.23**

Dear Senedd members,

Thank you for the opportunity to reply to the Ministers comments concerning my petition. I welcome her support for the general thrust of my petition but I do not believe, however, that the three reasons she lists for not supporting this policy change could not be overcome given enough commitment, determination and political will.
Declaring a Climate emergency means we now urgently need radical and effective action not more nice words and neverending reports.

The Ministers explanation of the Building regulations is interesting but is not certainly not a reason why including solar PV in future builds cannot be adopted.
Similarly the information on permitted development rights is interesting but does not address my suggestion that solar PV can effectively help us tackle both climate change and the energy crisis and fuel poverty.
Installing solar panels on every house in the UK would provide 60.52% of our total domestic electricity consumption. Between April and September, solar generation would exceed all domestic electricity consumption.

With more solar panels on roof tops here in the UK than ever before, solar panels are becoming less of an eye sore and more of a statement of change. By installing solar panels on new builds we are effectively increasing the awareness in the technology and making renewable energy more of the norm. This is a great way to continue to encourage the UK's transition towards Green energy.

Finally "other considerations" informs us that solar PV is not suitable in all locations but I have already accepted that fact in my petition.

Once again I believe that Welsh Government can lead the world in finding solutions to both climate change and the energy crisis but what is lacking is the political will to make that change!

Thank you/Diolch

Robert Curtis

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1342: Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 3 July 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5997-4

**Rhif y Ddeiseb:** P-06-1342

**Teitl y ddeiseb:** Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb**

Wrth edrych ar gyllid a ddarperir ar gyfer darpariaethau arbenigol yng Nghymru i blant ag anghenion ychwanegol, mae'n bell o fod yn dderbyniol bod yn rhaid i blant sydd â lefel uchel o anghenion gael eu gorfodi i aros mewn amgylchedd prif ffrwd oherwydd diffyg lleoedd mewn ysgolion ac oherwydd nad oes gan ysgolion ddigon o arian na staff!

**Rhagor o fanylion**

Mae ysgolion arbenigol a darpariaethau uned ledled Cymru eisoes yn llawn ac nid yw'r rhai sydd ddim yn llawn eto yn bell y tu ôl. Nid oes digon o staff mewn ysgolion, mae staff eisoes yn gorweithio, ni all plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael yr addysg a'r cymorth y maent yn ei haeddu o'r dechrau. Mewn nifer o achosion, mae ymyrraeth gynnar yn eithriadol o bwysig ac mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu tynnu oddi ar blant oherwydd yr argyfwng yr ydym yn ei wynebu yn ein system addysg.

# 1. Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu system newydd i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc, fel y term cyfreithiol bellach, i ddisodli'r system bresennol/blaenorol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Mae'r system ADY newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd (mis Medi 2021 i fis Awst 2025). Mae'r holl ddysgwyr sydd newydd gael eu nodi ag ADY yn dod o dan y system newydd, tra bod y rhai sydd eisoes yn cael eu cefnogi ag AAA yn cael eu trosglwyddo mewn gwahanol flynyddoedd, yn dibynnu ar eu grŵp blwyddyn a lefel yr ymyrraeth (a oes ganddynt ddatganiad AAA ai peidio).

O'r herwydd, mae'r system AAA bresennol/blaenorol a'r system ADY newydd yn gweithredu ochr yn ochr tan fis Awst 2025.

Mae'r diffiniad o ADY yn faterol yr un peth ag ar gyfer AAA. Mae dysgwyr y bernir bod ganddynt ADY yn gymwys i gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol.

# 2. Lleoli dysgwyr mewn darpariaeth arbenigol

Mae Deddf 2018 yn gofyn am ragdybiaeth o leoli dysgwyr ag ADY mewn addysg brif ffrwd, oni bai bod meini prawf penodol yn gymwys. Mae hyn yr un peth ag yn achos y system AAA bresennol/blaenorol. Fodd bynnag, maen prawf pellach a ychwanegwyd gan Ddeddf 2018 oedd i holi a fyddai lleoliad mewn darpariaeth arbenigol er lles pennaf y dysgwr.

Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu canllawiau statudol i'r rhai sy'n gweithredu'r system ADY. Mae pennod 23 o'r Cod ADY yn ymwneud â pharatoi a chynnal CDU a'i gynnwys. Mae paragraff 23.97 yn ailddatgan adran 51(1) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i leoli plentyn mewn ysgol brif ffrwd, yn hytrach nag ysgol arbennig, oni bai bod un o'r canlynol yn gymwys:

(a) bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;

(b) bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;

(c) bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio dim ond os yw rhiant/rhieni plentyn yn dymuno i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig, ond serch hynny rhaid iddo ystyried dymuniadau'r rhiant/rhieni (adran 51(4) o'r Ddeddf a pharagraff 23.102 o'r Cod). Byddai'r awdurdod lleol yn gwneud ei benderfyniad ar sail y meini prawf a nodir uchod.

Yn ogystal, o dan adran 55 o'r Ddeddf (ac fel y nodir ym mharagraff 23.113 o'r Cod), dim am y rhesymau canlynol y gall yr awdurdod lleol leoli plentyn mewn ysgol arbennig:

(a) bod yr ysgol wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru, a

(b) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall yr ysgol wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.

# 3. Capasiti mewn darpariaeth arbenigol

Mae ymateb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i'r ddeiseb yn cydnabod bod problemau capasiti mewn darpariaeth addysg arbenigol:

> Gwyddom fod galw parhaus digynsail ar ysgolion i ddarparu ar gyfer ystod lawer ehangach na'r arfer o anghenion ar draws pob grŵp oedran, yn enwedig mewn perthynas â llesiant cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, ac mewn rhai ardaloedd mae'r galw cynyddol presennol am leoliadau arbenigol yn fwy na'r capasiti presennol.

Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (paragraff 2.56) ym mis Mai 2023:

> Credir bod cyllidebau llai i ysgolion wedi gwneud y sefyllfa'n waeth gan fod ysgolion yn nodi na allant fodloni gofynion cynyddol o'r fath mwyach. Mae pob ALl yn nodi bod galw cynyddol am leoliadau arbenigol, sydd dipyn yn fwy na'r adnoddau presennol.

Yn ei lythyr at y Pwyllgor hwn, mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth ADY, gan gynnwys £20 miliwn yn 2022 i gefnogi'r gwaith o wella a chreu mannau a chyfleusterau cynhwysol mewn ysgolion er mwyn gallu diwallu anghenion dysgwyr. Mae hefyd yn cyfeirio at y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ariannu gwelliannau mawr i ystadau addysg, gan gynnwys darpariaeth ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbennig newydd.

# 4. Gwaith craffu a dadl yn y Senedd

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gwneud gwaith craffu ar weithredu'r system ADY newydd. Mae pwysau cyllidebol wedi'u nodi fel risg i gyflawni'r diwygiadau ADY yn llwyddiannus.

Cafwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin 2023 ynghylch gweithredu'r diwygiadau ADY, a oedd yn cynnwys ffocws ar argaeledd darpariaeth arbenigol. Mewn ymateb i alwad am adolygiad brys o weithredu'r diwygiadau ADY, tynnodd y Gweinidog sylw at adolygiad thematig y mae Estyn yn ei gynnal, sydd i fod i gyflwyno adroddiad ym mis Medi 2023.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1342
Ein cyf/Our ref: JMEWL/00882/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

9 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mai ynghylch materion a godwyd mewn deiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau gan Stevie Pyne.

Mae tegwch a chynhwysiant wrth wraidd y diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i'r system addysg yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu system ar gyfer nodi anghenion unigol yn gynnar a mynd i'r afael â nhw'n gyflym, a system lle y mae pob dysgwr yn cael cefnogaeth i gyflawni ei botensial.

Mae ein diwygiadau ym maes addysg yn cynnwys newid y Cwricwlwm yng Nghymru a chyflwyno system newydd i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i godi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY. Mae'n gweld pob dysgwr fel unigolyn gyda chryfderau gwahanol a meysydd gwahanol i'w gwella, a all fod yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymder gwahanol. Mae adran 'Galluogi Dysgu' y canllawiau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn benodol yn cefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY. Yn allweddol i hyn, mae canllawiau ar y pum llwybr datblygu sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu hamser eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu sydd orau ganddyn nhw.

Ochr yn ochr â diwygio'r Cwricwlwm, rydym yn cyflwyno system ADY newydd fesul cam sy'n disodli'n raddol y system anghenion addysgol arbennig. Mae adnabod anghenion, ymyrryd ac atal problemau yn gynnar yn nod allweddol i'r system ADY sy'n newid y fframwaith cyfreithiol, yn ogystal ag arferion, i gefnogi plant a phobl ifanc fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd fwy amserol. Bydd Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg a Chod ADY Cymru yn helpu i sicrhau bod y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar ddysgwyr 0-25 oed i ddiwallu ADY yn cael ei gynllunio a'i ddiogelu'n briodol mewn un Cynllun Datblygu Unigol statudol. Mae'r Ddeddf a'r Cod hefyd yn sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i rieni yn cael eu clywed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu a chyflwyno'r system ADY, rydym wedi datblygu rhaglenni hyfforddiant a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon. Mae hyn yn cynnwys rhaglen dysgu proffesiynol ADY ar-lein ar gyfer Cydlynwyr ADY mewn ysgolion sydd â rôl strategol ac sy'n rhoi cyngor a chymorth proffesiynol i athrawon ar ADY. Mae canllawiau ar y system newydd ac ar hawliau rhieni hefyd ar gael i ymarferwyr, rhieni, plant a phobl ifanc.

Rydym wedi cael adborth cadarnhaol ynghylch y system ADY, yn enwedig o ran yr elfen o ganolbwyntio ar yr unigolyn, ac eleni rydym wedi bron â dyblu'r cyllid sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio ADY. Yn ogystal â monitro sut mae'r gwaith o weithredu'r system yn dod yn ei flaen, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arno yn ystod y cyfnod gweithredu.

Mae symud plant a phobl ifanc i'r system ADY mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn dipyn o dasg. Ym mis Mawrth eleni, fe wnaethom ymestyn cyfnod gweithredu'r Ddeddf ADY o dair i bedair blynedd. Roedd hyn er mwyn ymateb i bwysau o ran llwyth gwaith, creu mwy o hyblygrwydd, a diogelu ansawdd yr ymarfer, y cynlluniau a'r ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym hefyd yn cydnabod y llwyth gwaith cynyddol sydd ar Gydlynwyr ADY yn ystod y cyfnod gweithredu ac rydym wedi cynyddu cyllid ADY i ysgolion eleni, er mwyn sicrhau y gall ysgolion ddarparu digon o gymorth i'w Cydlynwyr ADY. Mae dau grŵp gorchwyl a gorffen hefyd wedi'u sefydlu: un i adolygu tâl ac amser digyswllt Cydlynwyr ADY a gwneud argymhellion ar hynny; ac un i edrych ar faterion yn ymwneud â Chynorthwywyr Addysgu, gan gynnwys llwyth gwaith a chyfrifoldebau a symud i raddfeydd cyflog cyffredin ledled Cymru. Bydd y ddau grŵp wedi adrodd erbyn mis Rhagfyr 2023.

O ran cyllid, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a bennir yn flynyddol yn y Setliad Refeniw a Chyfalaf Terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd i'r setliad ar gyfer 2023-24 (y Setliad) yma. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ac unwaith y caiff ei ddosbarthu mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu cyllidebau ar gyfer eu hysgolion a'r ddarpariaeth leol y maent yn ei chefnogi. Fel rhan o'u rôl yn sicrhau bod darpariaeth addas yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion, disgwylir i bob awdurdod lleol sicrhau bod eu trefniadau cyllido ysgolion yn effeithiol i gefnogi a chodi lefelau cyflawniad pob dysgwr ag ADY.

Yn ogystal, mae dros £62 miliwn o gyllid grant refeniw wedi'i fuddsoddi rhwng 2020 a 2023 ac rydym wedi sicrhau cynnydd o £5.4 miliwn ar gyfer grant gweithredu'r system ADY ledled Cymru yn 2023-24. Bwriad y grant ychwanegol hwn yw cynyddu'r adnoddau i ysgolion weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol.

O ran darpariaeth ADY, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth addysg addas i blant a phobl ifanc yn eu hardal, gan gynnwys y rhai ag ADY. O dan Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), mae dyletswydd arnynt hefyd i adolygu eu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, a rhai eu hysgolion a gynhelir. Mae'r adolygiad hwn yn rhan allweddol o gynllunio a gwneud penderfyniadau strategol yn lleol a bydd yn galluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion presennol ac anghenion tebygol yn y dyfodol a sicrhau darpariaeth a gwasanaethau digonol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd hon ar gael ym Mhennod 7 o God ADY Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol yn yr ystad ysgolion ledled Cymru ac mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf yn ein

hystad addysg ers y 1960au. Ar hyn o bryd, rydym yn ein hail don o gyllid, a ddechreuodd yn 2019, ac a fydd yn gweld £2.3 biliwn yn cael ei fuddsoddi. Mae’r Rhaglen wedi chwarae rhan bwysig wrth wella seilwaith addysg ledled Cymru, gan gynnwys darpariaeth ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol newydd mewn rhai ardaloedd. Caiff y Rhaglen ei datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid gweithredu mewn awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Gan mai awdurdodau lleol sydd â’r wybodaeth orau am yr hyn sydd ei angen yn eu hardal, y nhw sy’n gosod y blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a’r cyflymder ar gyfer gweithredu’r prosiectau hynny.

Yn ogystal â’r Rhaglen hon, fe wnaethom sicrhau bod £20 miliwn ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol yn 2022 i gefnogi’r gwaith o wella neu greu ardaloedd a chyfleusterau cynhwysol i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd gyda’r technolegau a’r cyfleusterau sydd ei angen arno.

Gwyddom fod galw parhaus digynsail ar ysgolion i ddarparu ar gyfer ystod lawer ehangach na’r arfer o anghenion ar draws pob grŵp oedran, yn enwedig mewn perthynas â llesiant cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mewn rhai ardaloedd, mae’r galw cynyddol, presennol am leoliadau arbenigol yn uwch na’r capasiti presennol. Rydym wedi gallu cynnal grant o £9.1 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol yn 2023-24 a 2024-25 er mwyn ymateb i bwysau ychwanegol a materion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, rydym o’r farn mai’r unig ffordd gynaliadwy o ymateb i’r galw cynyddol a natur amlochrog cymorth iechyd meddwl yw sicrhau dull atal ac ymyrryd yn gynnar, ynghyd â chymorth cyffredinol, da a mynediad da at wasanaethau arbenigol. Dyna pam rydym yn mabwysiadu dull system gyfan o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

Rydym wedi datblygu Fframwaith NYTH fel offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i weithredu Dull System Gyfan yn eu hardaloedd. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi Arweinydd Gweithredu NYTH sy’n gweithio ar draws y Llywodraeth, gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid allanol i ymgorffori NYTH mewn polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn ategu ein dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol a’r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2021. Darparwyd £12.2 miliwn o gyllid gennym yn 2022-23 i gefnogi ysgolion i ymgorffori’r canllawiau a datblygu ethos ysgol gyda llesiant wrth ei wraidd. Defnyddiwyd cyllid i benodi cydlynwyr gweithredu sy’n rhan annatod o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru; gweithredu ystod o ymyriadau llesiant cyffredinol a rhai wedi’u targedu mewn ysgolion; darparu hyfforddiant llesiant i athrawon a staff eraill mewn ysgolion; a sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) ar gael o fewn ysgolion ledled Cymru, sy’n pennu ymarferwyr iechyd meddwl pwrpasol mewn ysgolion.

Mae’r diwygiadau i’r system addysg yn heriol a byddant yn cymryd amser i’w hymgorffori. Fodd bynnag, ynghyd â’r sector, rydym yn gadarn yn ein huchelgais i ddarparu system addysg gynhwysol lle gall pob plentyn a pherson ifanc gyflawni ei botensial llawn.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 3 July 2023

**Reference:** SR23/5997-5

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1343

**Teitl y ddeiseb:** Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

**Geiriad y ddeiseb:** Credaf y dylai fod gan bob plentyn mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru hawl i gael drafnidiaeth gyhoeddus am ddim er mwyn iddynt allu teithio i'w hysgol uwchradd ddalgylch* yn ddiogel.

Rydym yn byw 2.4 milltir o ysgol uwchradd ein plant ond mae ein cyngor yn datgan mai dim ond i'r rhai sy'n byw 3 milltir (neu ymhellach) o'u hysgol uwchradd ddalgylch y mae trafnidiaeth am ddim ar gael. Byddai cerdded i'r ysgol yn cymryd rhwng 50 munud ac awr o'n tŷ ni ar hyd ffyrdd prysur a gordyrrog. Nid oes llwybr beicio diogel.

Fel teulu rydym yn gwario dros £80 y mis ar docynnau bws ar gyfer ein 2 blentyn. Mae'n arian na allwn ei fforddio mewn gwirionedd ond i rai rhieni mae canfod £40 y mis (y plentyn) yn amhosib ac felly mae eu plant yn cael eu gorfodi i gerdded ar hyd ffyrdd tywyll, prysur, peryglus a llygredig er mwyn cyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn annheg ac yn gwahaniaethu yn erbyn y plant tlotaf mewn cymdeithas.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad (Mawrth 2022) o 'Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)' ac ym mis Mehefin 2022 dywedodd Mark Drakeford y bydd 'rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr a fydd yn sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad ehangach dilynol'.

*Mae ysgol uwchradd ddalgylch yn cyfeirio at leoliad addysg CA3/4 y plentyn/person ifanc gan gynnwys y Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Ysgolion cyfrwng Saesneg, Ysgolion dwyieithog, Ysgolion Ffydd, Ysgolion Arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) ac ati.

# 1. Cefndir

## 1.1. Yr hawl ar hyn o bryd i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol

O dan ddarpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr o **oedran ysgol gorfodol** sy'n byw ymhellach na phellteroedd penodol o'u hysgol addas agosaf. Mae'r pellteroedd a elwir yn bellteroedd cerdded wedi'u nodi yn y Mesur. Y pellteroedd statudol yw dwy filltir i ddisgyblion ysgolion cynradd a thair milltir i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Mae'r hawl i gludiant ysgol am ddim a phellteroedd cerdded statudol yn tarddu o Ddeddf Addysg 1944 a oedd yn nodi pellteroedd cerdded fel dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran ysgol gorfodol 8 oed ac iau, a thair milltir ar gyfer disgyblion hŷn.

## 1.2. Asesu anghenion dysgwyr

O dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd o dan 19 oed yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae rheidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rhai y maent yn dymuno darparu cludiant ar eu cyfer yn ôl

eu disgresiwn eu hunain wrth asesu anghenion teithio. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdod ystyried:

- Anghenion unrhyw ddysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;
- Anghenion penodol dysgwyr 'sy'n derbyn gofal' neu sydd wedi derbyn gofal yn ffurfiol gan awdurdod lleol;
- Oedran y dysgwr;
- Y math o lwybr y disgwylir i'r dysgwr ei ddilyn rhwng y cartref a lleoliad yr addysg neu'r hyfforddiant.

## 1.3. Llwybrau sydd ar gael

Mae'r Mesur yn nodi y dylid mesur y pellter cerdded 'ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod ffordd "ar gael" os yw'n ddiogel (cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu gyda hebryngwr sy'n oedolyn pe byddai oed a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn galw am ddarparu hebryngwr.

Os nad yw ffordd 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall ar gael o fewn y pellter perthnasol, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr. Mewn achosion felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno.

## 1.4. Darpariaethau yn ôl disgresiwn

Yn ogystal â darpariaeth statudol, mae gan awdurdodau lleol bwerau dewisol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr eraill sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau disgresiwn, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi yn cael ei gymhwyso i bob dysgwr sy'n wynebu amgylchiadau tebyg yn ardal yr awdurdod hwnnw. Er nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig cludiant am ddim, rhai enghreifftiau o adegau y gellir defnyddio'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn yw ar gyfer:

- Plant dan bump oed;
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Ysgolion ffydd nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Dysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif-ffrwd.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd 2019, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth ar Deithio gan Ddysgwyr o ran dysgwyr ôl-16. Mewn Datganiad Ysgrifenedig Cabinet ar y cyd, dywedodd Gweinidog y Gymraeg, Addysg a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bod y trefniadau trafnidiaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn gweithio'n dda ar y cyfan.

Yn ôl Datganiad gan y Cabinet ym mis Awst 2020, cafodd yr adolygiad ei ymestyn i gynnwys y grŵp oedran 4-16 oed a'r trothwy milltiroedd presennol ar gyfer trafnidiaeth am ddim. Roedd disgwyl i'r adolygiad ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2021, ond ni chyhoeddwyd yr adolygiad oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad yn arwain at etholiadau'r Senedd a gynhaliwyd ym mis Mai 2021.

Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar yr adolygiad o fis Mawrth 2021 ar 31 Mawrth 2022. Mae'r adroddiad interim, sydd wedi'i ysgrifennu mewn fformat gan swyddogion Llywodraeth Cymru i Weinidogion, yn cyflwyno dau opsiwn i'w hystyried:

- opsiwn 1. Datblygu newidiadau i'r Mesur yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf fel y'i hamlinellir yng nghwmpas gwreiddiol yr adolygiad.
- opsiwn 2. Datblygu rhaglen ehangach o waith sy'n cynnwys ystyrieddiwygiad llwyr o'r Mesur ynghyd â gwaith i;
  - gwella darpariaeth gweithredwyr a'r amgylchedd lle gellir darparu mwy o dan y Mesur; ac◦
  - ystyried gwell integreiddio â pholisïau cysylltiedig, megis anghenion disgyblion ADY a darpariaeth i sefydliadau Addysg Bellach.

Argymhellodd swyddogion opsiwn 2 ac awgrymwyd y gellid ei gyfuno â gwaith polisi arall ym maes trafnidiaeth gyhoeddus.

Mewn datganiad ysgrifenedig Cabinet (31 Mawrth 2022) dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rhaglen ehangach o waith eleni sy'n cynnwys ystyried adolygiad cyflawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Dywedodd hefyd:

> Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r sail dystiolaeth i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig i sicrhau eu bod yn deg, yn gymesur ac yn fforddiadwy. Byddwn yn ymgynghori ar y gwaith hwn yn ddiweddarach eleni.

Mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig (12 Ebrill 2023), dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:

> An initial review of the Learner Travel (Wales) Measure took place in 2020/2021. From the initial review it was a clear that a more detailed review of the Measure was required due to the complex nature of learner's travel needs.
>
> Work has now commenced on this wider review of the Measure which, working in partnership with local authorities, the industry as well as children and young people, will identify the barriers as well as opportunities and innovative approaches to learner travel. Key findings, learnings and examples of innovative good practice from local, national and international research will inform advice due to be submitted for me to review this summer.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn 2017, bu Pwyllgor Deisebau y Bumed Senedd yn ystyried deiseb, Cludiant Ysgol Am Ddim i Holl Blant Cymru. Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, a gofynnodd am farn y Deisebydd, ond ar ôl methu â chysylltu â'r deisebydd, caewyd y ddeiseb.

Trafodwyd deiseb bellach, Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun gan y Pwyllgor ar 25 Ebrill 2022. Yn sgil adolygiad Llywodraeth Cymru, cytunodd y Pwyllgor i barhau i gadw golwg ar y ddeiseb.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1343
Ein cyf/Our ref LW/01005/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

15 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mai at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar ran Elin Wyn Davies ynghylch Deiseb P-06-1343 i ddarparu cludiant cyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd. Fi sy'n ymateb gan mai fi sy'n gyfrifol am y portffolio.

Un o brif amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd, yw lleihau cost teithio cynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, ac rydym ar hyn o bryd yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau i wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a dewisiadau teithio llesol yn haws ac yn fwy fforddiadwy i bawb yn y gymuned.

Yn anffodus, rydym wedi wynebu setliad cyllid heriol gan Lywodraeth y DU. Yn dilyn pandemig Covid, rydym wedi gorfod blaenoriaethu ein cyllid ar gyfer bysiau i sicrhau bod gwasanaethau bysiau hanfodol yn cael eu cynnal, gan gadw prisiau mor isel â phosibl, drwy'r amodau a nodir yn y Cynllun Argyfwng Bysiau. Mae'r Cynllun hwn wedi cynnal y diwydiant bysiau yn llwyddiannus dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r pwysau ariannol hyn ochr yn ochr â'r system gymhleth, dameidiog o ran prisiau a thocynnau ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru oherwydd dadreoleiddio'r diwydiant bysiau yn cyfyngu ar ein dylanwad ar brisiau. Caiff prisiau eu pennu ar hyn o bryd gan y gweithredwyr eu hunain ar wasanaethau masnachol neu gan delerau'r contract fel y nodir gan awdurdodau lleol ar wasanaethau sy'n destun proses dendro.

Fodd bynnag, rydym yn ariannu ac yn darparu'r cynllun FyNgherdynTeithio (Hafan ♥ fyngherdynteithio | Llywodraeth Cymru) ar gyfer pobl ifanc 16 i 21 oed sy'n darparu tua 1/3 oddi ar gost teithio ar fysiau. Mae nifer o docynnau rhwydwaith ar gael ledled Cymru hefyd. Gellir cael manylion drwy ddilyn y ddolen we ganlynol: Prisiau tocynnau bws (traveline.cymru).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y Bil Bysiau arfaethedig, y byddwn yn ei gyflwyno i'r Senedd yn gynnar yn 2024, yn rhoi cyfle inni edrych o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau bysiau ledled Cymru, cyflwyno prisiau tecach a sicrhau bod cludiant ysgol yn cyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus. Gan fod ein nodau'n uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael hyn yn iawn i gefnogi dysgwyr a'n rhaglen ddiwygio ehangach.

Fel y gwyddoch, mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardaloedd, ac i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr 5 i 16 oed sy'n byw mwy na 2 filltir (os ydynt yn yr ysgol gynradd) neu 3 milltir (os ydynt yn yr ysgol uwchradd) o'u hysgol addas agosaf ar sail oedran, pellter, doniau a diogelwch.

Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn 2020/2021 a ddaeth i'r casgliad bod angen adolygiad manylach o'r Mesur oherwydd natur gymhleth anghenion teithio dysgwyr.

Mae gwaith bellach wedi dechrau ar yr adolygiad ehangach hwn o'r Mesur a fydd, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y diwydiant yn ogystal â phlant a phobl ifanc, yn nodi'r rhwystrau yn ogystal â'r cyfleoedd a'r dulliau arloesol o deithio gan ddysgwyr. Bydd canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o arferion da yn sgil ymchwil leol, genedlaethol a rhyngwladol yn llywio cyngor sydd i'w gyflwyno imi ei adolygu yr haf hwn. Mae'n hanfodol ein bod yn cymryd yr amser i gasglu'r dystiolaeth a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu opsiynau polisi cynaliadwy a fforddiadwy i bob dysgwr yng Nghymru.

Mae Elin yn codi rhai pwyntiau pwysig iawn yn y ddeiseb ac rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod ei phryderon yn cael eu hystyried yn yr adolygiad o deithio gan ddysgwyr.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

Y Pwyllgor Deisebau | 03 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 03 July 2023

Cyfeirnod: SR23/5997-8

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1348

**Teitl y ddeiseb:** Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

**Geiriad y ddeiseb:** Yn hanesyddol mae'r rhai sy'n dangos arwyddion o syndrom Ehlers-Danlos (EDS) neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd wedi cael eu cyfeirio at adrannau rhewmatoleg. Yn 2021, fe'u cyfarwyddwyd i roi'r gorau i weld y cleifion hyn er mwyn iddynt gael diagnosis a rheolaeth mewn gofal sylfaenol, ond nid yw'r adnoddau ar gyfer y rôl hon mewn gofal sylfaenol ar hyn o bryd. Mae gwasanaeth trydyddol unigryw yn Lloegr hefyd wedi cau i gleifion o'r tu allan i'r ardal. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at anghydraddoldebau o ran cael gafael ar ofal iechyd i'r rhai sydd ag EDS ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd yng Nghymru gan arwain at ddioddefaint annerbyniol.

# 1. Y cefndir

## Syndromau Ehlers-Danlos (EDS) ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd (HSD)

Mae syndromau Ehlers-Danlos (EDS) yn grŵp o anhwylderau genetig sy'n effeithio ar feinwe gysylltiol y corff. Mae meinwe gysylltiol yn cysylltu ac yn cynnal meinweoedd ac organau eraill y corff. Mae 13 math o EDS, y rhan fwyaf ohonynt yn brin, ac EDS hypersymudedd (hEDS) yw'r mwyaf cyffredin. Gall y cyflwr gael ei etifeddu ond gall unigolyn heb hanes teuluol hefyd feddu ar y genynnau sy'n gyfrifol.

Gall pobl sy'n byw gydag EDS brofi amrywiaeth o symptomau, oherwydd bod meinwe gysylltiol ym mhob rhan o'r corff. Mae'r rhain yn cynnwys symudedd gormodol yn y cymalau, a elwir yn hypersymudedd, a chroen elastig neu fregus. Gall symptomau hefyd ymestyn y tu hwnt i'r croen a'r cymalau, gyda rhai cleifion yn profi poen a blinder cronig, pendro a phroblemau treulio, ymhlith eraill. Gall rhai mathau o EDS, fel EDS fasgwlaidd, fygwth bywyd.

At hynny, mae cyflyrau eraill sy'n effeithio ar symudedd cymalau ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf clinigol ar gyfer EDS. Cyfeirir at y rhain fel anhwylderau sbectrwm hypersymudedd (HSD) ac mae ganddynt symptomau tebyg i hEDS.

Canfu astudiaeth o 2019 a ymchwiliodd i nifer yr achosion o'r cyflyrau hyn yng Nghymru, fod amcangyfrif o 1 o bob 500 o bobl yng Nghymru â diagnosis o EDS neu HDS ar eu cofnodion meddygol yng Nghymru yn 2016/2017. Roedd 70 y cant o'r achosion hyn yn fenywod. Fodd bynnag, cafodd dynion yng Nghymru ddiagnosis o EDS 8.5 mlynedd ynghynt na menywod, ar gyfartaledd.

Mae'r ddeiseb hon yn rhan o ymgyrch #EnoughIsEnough Ehlers-Danlos Support UK , sy'n galw ar lywodraethau ledled y DU (drwy ddeisebau ac ymgysylltu â'r gymuned) i ariannu gwasanaethau GIG addas ar gyfer diagnosis a thriniaeth hypersymudedd EDS a HSD.

## Cefnogaeth a thriniaeth ar gyfer EDS a HSD

Nid oes prawf ar gael ar gyfer hEDS nac HSD, fodd bynnag gellir canfod y mathau prinnaf o EDS drwy ddefnyddio profion genetig drwy arbenigwr geneteg. Mae gwefan GIG 111 Cymru yn nodi y gellir cyfeirio cleifion yr amheuir bod ganddynt

fathau prin o EDS at wasanaeth EDS arbenigol yn Lloegr, naill ai'n Sheffield neu Lundain, am ddiagnosis.

Nid oes unrhyw driniaeth benodol ar gyfer EDS nac HSD, yn hytrach mae gofal yn canolbwyntio ar helpu pobl i reoli eu symptomau. Er enghraifft, gall ffisiotherapyddion helpu cleifion sydd â symptomau fel poen yn y cymalau tra gall cwnselwyr gynnig help i ymdrin â phoen hirdymor.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn nodi fel a ganlyn mewn ymateb i'r ddeiseb hon:

> Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella bywydau'r rhai yr effeithir arnynt gan Glefydau Prin yng Nghymru ac yn cydnabod yr heriau sylweddol a wynebir gan bobl, gan gynnwys tegwch gofal, rheolaeth ac, os yw ar gael, triniaeth.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn cynllunio ac yn sicrhau gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â chyflyrau prin a chyfrifoldeb byrddau iechyd yw rheoli mynediad ac atgyfeirio at wasanaethau fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022-2026 sy'n ffurfio rhan o Fframwaith Clefydau Prin y DU. Nod y cynllun hwn yw helpu i ddarparu'r gofal gorau a gwella bywydau pobl sy'n byw gyda chlefydau prin, y mae EDS a HSD wedi'u cynnwys yn hyn. Pedair blaenoriaeth allweddol y cynllun yw:

1. Helpu cleifion i gael diagnosis terfynol yn gynt.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth o glefydau prin ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
3. Gwell amodau gofal.
4. Gwella mynediad at ofal arbenigol, triniaeth a chyffuriau.

Mae gan y cynllun ffocws cryf ar ddefnyddio dilyniannu genomau i wella profion genetig ar gyfer clefydau prin. Mae'n cyhoeddi datblygiad cynllun cyflawni genomeg tair blynedd (2022-2025) i Gymru, sy'n bwriadu cyflwyno dilyniannu genom ac ecsom cyfan i gleifion yr amheuir bod ganddynt glefyd prin.

Mae'r Grŵp Gweithredu Clefydau Prin yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni’r Cynllun Gweithredu ar Glefydau Prin yng Nghymru ac yn monitro ei gynnydd yn flynyddol. Penodwyd uwch-glinigydd yn 2022 fel Arweinydd Clinigol a Hyrwyddwr Clinigol ar gyfer clefydau prin i weithio gyda’r grŵp i godi proffil clefydau prin a chychwyn ffrydiau gwaith priodol mewn trafodaeth â phartneriaid.

Dywedodd y Gweinidog yn ei hymateb i’r ddeiseb fod y Grŵp Gweithredu ar Glefydau Prin “wedi gwneud cynnydd gyda’r holl flaenoriaethau” yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth edrych i’r dyfodol, dywedodd hefyd:

> […] mae ymchwiliadau parhaus ynghylch y cyfle i gael hyb iechyd rhithwir/canolfan Clefydau Prin Cymru a fydd yn darparu cefnogaeth o bell i'r rhai sydd â Chlefydau Prin.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1348
Ein cyf/Our ref EM/01475/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

petitions@senedd.cymru
Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch gwasanaethau i bobl â syndrom Ehlers-Danlos ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd.

Rwy'n ymwybodol bod syndrom Ehlers-Danlos ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd yn cael eu hystyried yn gyflyrau prin. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn cynllunio ac yn sicrhau gwasanaethau i bobl â chyflyrau prin a chyfrifoldeb byrddau iechyd yw rheoli'r mynediad ac atgyfeiriadau at wasanaethau fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella bywydau'r rhai yr effeithir arnynt gan Glefydau Prin yng Nghymru ac yn cydnabod yr heriau sylweddol a wynebir gan bobl, gan gynnwys tegwch gofal, rheolaeth ac, os yw ar gael, triniaeth.

Mae Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022 i 2026 - Gweithrediaeth GIG Cymru yn nodi nifer o flaenoriaethau sy'n anelu at wella hygyrchedd ac ansawdd y gofal y mae unigolion yn ei gael, ac mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â gweddill y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n cynnwys:

Blaenoriaeth 1: Helpu cleifion i gael diagnosis terfynol yn gyflymach
Blaenoriaeth 2: Cynyddu ymwybyddiaeth o glefydau prin ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
Blaenoriaeth 3: Cyd-drefnu gofal yn well
Blaenoriaeth 4: Gwella mynediad at ofal arbenigol, triniaeth a chyffuriau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Grŵp Gweithredu Clefydau Prin yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion hyn, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi gwneud cynnydd gyda'r holl flaenoriaethau. Yn ogystal, mae ymchwiliadau parhaus ynghylch y cyfle i gael hyb iechyd rhithwir/canolfan Clefydau Prin Cymru a fydd yn darparu cefnogaeth o bell i'r rhai sydd â Chlefydau Prin.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

EHLERS-DANLOS SUPPORT UK

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

petitions@senedd.wales

27 June 2023

**RE: Your reference P-06-1348**

Dear Mr Sargeant,

Thank you for sharing the letter, dated 19 June 2023, from Eluned Morgan AS/MS, Minister for Health and Social Services, in response to our petition about NHS services for people with Ehlers-Danlos syndromes (EDS) and hypermobility spectrum disorders (HSD).

While the true prevalence of EDS and HSD is unknown, the conditions are likely to affect between 600 and 6,400 people in Wales[1].

We are pleased to hear that the Welsh Government is committed to improving the lives of those impacted with a rare disease in Wales and recognises the substantial challenges, including equity of care, management and if available, treatment faced by people.

We welcome the Wales Rare Diseases Action Plan 2022 - 2026 and are pleased to hear that The Rare Disease Implementation Group has made progress with all of its priorities in the last year. We would be grateful for more information on how and when this work will impact those with EDS and HSD in Wales and would be pleased to attend a meeting with the Department of Health and Social Services to discuss further.

The current experiences of our members indicate that people with EDS and HSD in Wales do not have access to any 'services for people with rare conditions', which Ms Morgan stated as being the responsibility of The Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC). Their website lists 'Rare Diseases' as a commissioned service but the location(s) of this service and the pathway to access it is unclear for people with symptoms of EDS or HSD. It would be helpful for our helpline staff and volunteers in Wales to learn about the commissioned rare disease services so that they can signpost patients accordingly.

[1] Demmler JC, Atkinson MD, Reinhold EJ, *et al*
Diagnosed prevalence of Ehlers-Danlos syndrome and hypermobility spectrum disorder in Wales, UK: a national electronic cohort study and case–control comparison
*BMJ Open* 2019;**9:**e031365. doi: 10.1136/bmjopen-2019-031365

The Ehlers-Danlos Support UK is a charity registered in England and Wales (No. 1157027) and Scotland (SCO46712). Registered Company No. 8924646. Registered Address: Devonshire House, Manor Way, Borehamwood, Hertfordshire, WD6 1QQ.

If the rare disease service is based on a genomic medicine service, it is unlikely to be of benefit to those with hypermobile EDS (hEDS) or HSD at present, as a genetic basis for these conditions is yet to be identified.

It is our experience that health boards are not commissioning appropriate community-based or secondary care EDS and HSD services at present. In line with the Welsh Government's 'A Healthier Wales' plan, hospital-based rheumatology departments are specifically declining referrals for patients with 'hypermobility' (which includes those with most types of EDS and HSD) in favour of management in primary and community care. This includes those with complex needs. This is slowing down the time to diagnosis of EDS and HSD, which goes against the Wales Rare Disease Action Plan. We would like to understand what alternative pathways are available to these patients with complex needs.

Thank you.

Yours sincerely,





Susan Booth
Chief Executive Officer

Natasha Evans-Jones
Lead Engagement Volunteer for Wales

The Ehlers-Danlos Support UK is a charity registered in England and Wales (No. 1157027) and Scotland (SCO46712). Registered Company No. 8924646. Registered Address: Devonshire House, Manor Way, Borehamwood, Hertfordshire, WD6 1QQ.

# Eitem 4.1

**P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nicola Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 60 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae llawer o rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau o'r enw Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal: P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn.**

Elfen allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau plant yng Nghymru yw ein bod am i bobl ifanc sy'n gadael gofal deimlo eu bod yn cael cymorth i ddechrau byw'n annibynnol pan fyddant yn barod i wneud hynny, ac i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae'r dyfodol hwn yn cynnwys pan fyddant yn barod i ddechrau teulu eu hunain.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys 8 ymrwymiad, sydd gyda'i gilydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein gweledigaeth i drawsnewid Gwasanaethau Plant yn radical trwy Raglen Drawsnewid bwrpasol. Bydd cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn creu newid ar draws y system gyfan yng Nghymru ac yn cyd-fynd â'n Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn sicrhau ein bod yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc fel y gallant gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau, a'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig y mae bwriad ei chyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn. Mae llais a hawliau Plant a Phobl Ifanc wrth galon popeth a wnawn. Bydd yr ymrwymiadau hyn a'r Cynllun yn cael eu cyflawni dros dymor y Senedd gyfan hon.

Rydym yn gwybod bod prosiectau fel Project Unity yn chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i famau â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid blynyddol o £340,000 ar gyfer y rhaglen tan 2025, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi mamau â phrofiad o fod mewn gofal a chadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod defnydd Baby & Me o ddull amlddisgyblaethol, sy'n seiliedig ar berthynas, i weithio gyda theuluoedd mewn ffordd hyblyg, sy'n cael ei llywio gan drawma, i gefnogi rhieni i oresgyn rhwystrau i fagu plant llwyddiannus.

Mae'r ddau ddull hyn yn gydnaws â dymuniad Llywodraeth Cymru i weld mwy o ddefnydd o wasanaethau ymyrraeth gynnar lle mae'n briodol gwneud hynny.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deisebau am yr adroddiad Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal. Bydd argymhellion adroddiad y Pwyllgor ynghyd ag adroddiad arfaethedig ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn llywio'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

**Mae ymatebion manwl i'r argymhellion wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru orfodi mabwysiadu a monitro'r gwaith o weithredu'r siarter arfer da rhianta corfforaethol a gynhyrchwyd ar y cyd gan CASCADE a rhieni sydd wedi bod mewn gofal a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth Cymdeithasol wedi mynegi eu cefnogaeth i'r siarter hwn, a byddai'n gam cadarnhaol ymlaen i bob awdurdod lleol a chyrff cyhoeddus fabwysiadu'r siarter i ddangos eu hymrwymiad i ddarparu cymorth cyfannol i rieni sydd wedi bod mewn gofal.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r siarter arfer da rhianta corfforaethol sydd â'r nod o gefnogi rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal, a gynhyrchwyd ar y cyd gan CASCADE, rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Rydym yn croesawu cefnogaeth i'r siarter gan Benaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cael ar ddeall bod pob awdurdod lleol bellach wedi cofrestru, a byddem yn annog cyrff cyhoeddus eraill i wneud hynny.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru. Yn ganolog i'r rhaglen hon mae cyflawni wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, ac un ohonynt yw atgyfnerthu cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys awdurdodau lleol, Voices From Care Cymru, CASCADE, swyddfa'r Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Plant yng Nghymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â phobl ifanc sydd â phrofiad personol o fod mewn gofal. Nod y Grŵp oedd cyflwyno Siarter Rhianta Corfforaethol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Bydd y Siarter hon yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin, ar sail wirfoddol gydag awdurdodau lleol i ddechrau, a bydd cyrff cyhoeddus ehangach yn cael eu hannog i gofrestru a dod yn "rieni corfforaethol". Wrth fonitro'r broses o fabwysiadu'r Siarter, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i gryfhau canllawiau rhianta corfforaethol drwy adolygu Cod Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud ar draws y Llywodraeth i nodi pa rai o'r canllawiau y gellid eu cryfhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Siarter gan gyrff cyhoeddus ehangach.

Bydd y Siarter yn atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni datganiad gweledigaeth Uwchgynhadledd y Sawl sy'n Gadael Gofal, a fydd yn cael ei lofnodi ar 10 Mai gan y Prif Weinidog.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 2.

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data’n cael eu casglu’n rheolaidd mewn perthynas â faint o bobl ifanc mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal (hyd at 21 oed) sy’n beichiogi, a faint o’u plant sy’n aros gyda’u rhiant/rhieni, a gaiff eu rhoi mewn gofal maeth neu gydag aelodau o’r teulu neu eu mabwysiadu. Mae dysgu am y canlyniadau i deuluoedd yn bwysig er mwyn llywio ein dealltwriaeth fel y gellir datblygu systemau cefnogi ymhellach a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny. Yn y cyfamser rydym yn croesawu cynnig y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal arolwg sy’n rhoi cipolwg ar y sefyllfa o ran rhieni â phrofiad o ofal ym mhob awdurdod lleol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Nid yw’r ffynonellau data ar gael gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gasglu’r data sy’n cael ei amlinellu yn argymhelliad y Pwyllgor. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i archwilio argaeledd y data gyda’r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, bydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid yn ystyried casglu’r data hwn fel rhan o’i waith ar fetrigau ar gyfer gwasanaethau plant.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 3.

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi gwasanaethau amlasiantaeth ar ffiniau gofal amlasiantaethol fel Baby and Me, Jig-So a Reflect sy’n gwneud gwahaniaeth o ran cefnogi rhieni sy’n agored i niwed drwy ddulliau sy’n wybodus o drawma ac wedi’u seilio ar gryfder. Dylai teuluoedd gael mynediad i wasanaethau o’r fath ble bynnag maent yn byw yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sy’n cael ei wneud gan wasanaethau ar ffiniau gofal fel Babi & Me, Reflect a Jig-So a’r budd y mae’r rhaglenni hyn yn ei gynnig i rieni newydd, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu’r gwerthusiad o’r prosiectau hyn wrth benderfynu ar y camau nesaf a’r hyn a gaiff ei gyflwyno yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Oes, bydd cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i’r prosiectau hyn yn gofyn am adolygiad ariannol.

## Argymhelliad 4.

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru deddfwriaeth i sicrhau bod gan bob rhiant sydd wedi bod mewn gofal hawl statudol i wasanaeth cefnogi ataliol, cofleidiol, dwys i gadw teuluoedd efo'i gilydd, pryd bynnag fu eu profiad o ofal. Dylai gynnwys eiriolaeth arbenigol i rieni i'w cynorthwyo i ffeindio'u ffordd o amgylch y system gofal cymdeithasol a'r llysoedd teulu a'i fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Prosiect Undod.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal fel rhan o waith y Bwrdd Plant a Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor a bydd yn ystyried ac yn archwilio'r gofynion fel rhan o gyflawni'r Rhaglen hon.

**Goblygiadau Ariannol:** Oes, byddai angen edrych yn fanylach ar gostau o'r fath a gallent fod yn sylweddol.

**Argymhelliad 5.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob rhiant sydd wedi bod mewn gofal darpariaeth addas o ran tai. Mae diffyg tai priodol yn eu cymuned yn cael effaith sylweddol ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

**Ymateb:** Derbyn

Er mwyn gwella'r pontio o fod mewn gofal i fyw'n annibynnol, byddwn yn cyhoeddi fersiwn newydd o'r Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal cyn bo hir, sydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael y cymorth hyblyg sydd ei angen arnynt fel nad oes unrhyw berson â phrofiad o fod mewn gofal yn syrthio rhwng dwy stôl.

Mae'r cynnig llety ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, a phobl ifanc yn fwy cyffredinol, yn agwedd allweddol ar y gwaith ehangach i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref fforddiadwy o safon dderbyniol. Fel rhan o gynllun gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru a'n dull strategol cyffredinol, mae camau gweithredu tai a chymorth sy'n canolbwyntio ar ieuenctid.

Fel rhan o'n gwaith presennol, mae dros 20 o brosiectau sy'n darparu dulliau tai a chymorth newydd ac arloesol ar gyfer pobl ifanc yn weithredol ledled Cymru o ganlyniad i'n buddsoddiad o dros £3.1m yn y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal. Ar hyn o bryd, mae'r prosiectau hyn yn destun gwerthusiad allanol i nodi arferion da wrth ddarparu cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae Panel Adolygu Arbenigol wedi cael ei sefydlu i adolygu'r ddeddfwriaeth atal digartrefedd bresennol ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer diwygiadau erbyn mis

Awst 2023. Bydd y panel yn ystyried nifer o feysydd gan gynnwys dyrannu tai ac argaeledd tai i'r rhai sy'n gadael gofal.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fonitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn yr Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella gofal cymdeithasol plant.

**Ymateb:** Derbyn

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol â'r Pwyllgor ar 9 Mawrth i ddarparu tystiolaeth lafar a'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau plant. Mae Llywodraeth Cymru yn aros i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad terfynol o'r ymchwiliad sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mai.

Er mwyn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei huchelgeisiau i ddiwygio Gwasanaethau Plant yn llawn, mae wedi adolygu'r strwythur Llywodraethu ac wedi sefydlu dull tair haen o lywodraethu i ddarparu'r lefel gywir o gyfeiriad a chraffu:

- Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol newydd i oruchwylio'r Rhaglen Drawsnewid, i ddarparu arweiniad a chyfeiriad gwleidyddol a chefnogaeth i gyflawni'r rhaglen.
- Bydd y Bwrdd Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i ddarparu arbenigedd amhrisiadwy wrth i ni ystyried tystiolaeth ar y cyd a datblygu cynigion ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad proffil uchel hwn.
- Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid newydd (y Bwrdd Goruchwylio gynt) yn canolbwyntio'n fanylach ar sbarduno gweithredu rhaglenni a chyflawni'r Rhaglen Drawsnewid, gan weithio ar y cyd â'n partneriaid, gyda hawliau a llais plant a phobl ifanc yn ganolog iddo.

Mae gan y Rhaglen Drawsnewid fap trywydd cyflawni ar waith sy'n nodi'r amserlen ddisgwyliedig gyfredol ar gyfer cynnydd a chyflawni o ran ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu parthed Gwasanaethau Plant. Mae copi i'w weld yn **Atodiad A.**

**Goblygiadau Ariannol:** Dim, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Julie Morgan AS**

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gill Marshall, ar ôl casglu 4,338 llofnodion ar-lein, a 1,582 ar bapur, sef cyfanswm o 5,920 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae llawer o unedau ffermio dofednod dwys yng Nghymru. Powys yw un o'r mannau â'r nifer fwyaf o'r unedau hynny. Mae 147 o geisiadau unedau dofednod dwys wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Powys. Mae'r unedau hyn yn dod â llawer o broblemau gyda nhw gan gynnwys llygredd afonydd a thir, arogl, amonia, traffig, sŵn a golau bob awr o'r dydd. I lawer o bobl, mae'r arfer o ffermio dofednod dwys yn greulon ac yn ddiangen.
Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Pentref bach arall ym Mhowys yw'r diweddaraf mewn rhestr hir i gael ei fygwth gan adeiladu uned ddofednod ddwys. Ardal wledig yw hon, ac mae trigolion y pentref ac ymwelwyr yn cerdded ar y ffyrdd yn rheolaidd. Mae'r dirwedd yn ysblennydd, nid oes llygredd golau ac mae'r distawrwydd yn fyddarol, sy'n hyfryd. Mae afon Cain yn llifo drwy'r pentref yn agos at y safle ac yn llifo i afon Hafren.
Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu. Felly, mae'r ddeiseb hon yn ceisio cymell y gwleidyddion i ddeddfu; maent wedi addo gwneud hynny ers blynyddoedd; maent yn derbyn bod hwn yn fater difrifol ond nid oes deddfwriaeth o hyd.
Addawyd TAN ynghylch unedau dofednod dwys yn 2019. Mae Lesley Griffiths, y Gweinidog Amaeth, wedi dweud bod yn rhaid gwneud rhywbeth, yn enwedig o ran yr unedau llai. Ond rydym yn dal i aros.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn

- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1232
Ein cyf/Our ref: JJ/00647/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Mehefin 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn Sioe Frenhinol Cymru, a diweddariad ar y Nodyn Cyngor Technegol ar gyfer datblygu ffermio dwys.

Cadeiriodd y Prif Weinidog ail Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd ar 8 Mawrth. Cafodd datganiad ysgrifenedig ei gyhoeddi a oedd yn amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd a'r ymrwymiadau a wnaed gan y sefydliadau a gymerodd ran. Mae datganiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-ail-uwchgynhadledd-llygredd-afonydd.

Roedd yr uwchgynhadledd yn cefnogi cynllun gweithredu o'r enw 'Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy'. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys llunio amryw ganllawiau i helpu i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan lefelau ffosfforws, ac mae hwn hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/lleihau-pwysau-ar-ddalgylchoedd-afonydd-ardal-cadwraeth-arbennig-sac-i-helpu-i-gyflenwi-tai-html.

Yn ystod y gynhadledd cydnabuwyd nad oes un mesur sengl a fydd yn datrys y broblem hon, a bydd hyd yn oed nifer o fesurau'n cymryd amser i ddadwneud y difrod cronnol a wnaed yn y gorffennol. Un o'r themâu yn y cynllun gweithredu yw'r angen i weithio mewn ffordd adeiladol gyda'r sector amaethyddiaeth i ddod o hyd i atebion i leihau lefelau gormodol o faethynnau yn y pridd ac yn afonydd Cymru sydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Rwy'n disgwyl i'r sector dofednod gyfrannu at y gwaith hwn.

Rwy'n cydnabod bod gan ddatblygiadau dofednod y potensial i gynyddu lefelau o faethynnau o fewn dalgylchoedd afonydd, felly, rwy'n ystyried yn ofalus gais i alw i mewn yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer unedau dofednod sydd o flaen Cyngor Sir Powys. Mae cyfarwyddiadau sy'n atal y Cyngor rhag cymeradwyo'r ceisiadau wedi cael eu cyhoeddi'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddiweddar gan swyddogion. Byddaf yn eich hysbysu a ydwyf wedi penderfynu galw'r ceisiadau i mewn neu beidio maes o law.

Mae'n dda gennyf gadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo ar gaffael Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan, a fydd yn helpu awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr i nodi lefel y lliniaru ffosfforws sydd ei hangen i alluogi datblygiadau i fynd rhagddynt mewn dalgylchoedd afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Mae contractwyr newydd gael eu penodi i gyflwyno cyfrifiannell weithredol erbyn mis Gorffennaf, ac wedyn darparu rhaglen hyfforddi.

Yn ogystal, mae adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â gweithfeydd trin preifat mewn ardaloedd â charthffosydd cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn ystyried a oes unrhyw fesurau tymor byr y gellid eu rhoi ar waith, wrth i atebion tymor hir i lefelau ffosfforws gael eu datblygu gan Fyrddau Rheoli Maethynnau, wedi'u sefydlu i helpu i hyrwyddo mesurau lleol i helpu i wella ansawdd dalgylchoedd afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig.

Cafodd Gweithgor Cynllunio Gwlad a Thref ar Ffermio Dwys ei sefydlu yn 2019. Roedd y Gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, undebau ffermwyr a grwpiau amgylcheddol. Cafodd y Gweithgor ei sefydlu i gyfrannu at Nodyn Cyngor Technegol arfaethedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer datblygiadau ffermio dwys, ond cafodd ei atal dros dro oherwydd y pandemig. Er ein bod yn bwriadu ailafael yn y gwaith hwn, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i fwrw ymlaen â Chyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan ac adolygu canllawiau mewn perthynas â gweithfeydd trin preifat.

Yn gywir,

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

## P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved, Correspondence – Petitioner to Committee, 27.06.22

***Could you please confirm that the previous communication responding to PCC is also considered as, at the last meeting, this was deferred until a response from the Minister was received. There are a number of questions from myself that have not yet been responded to.***

***I am concerned that the focus of this petition has not been addressed in this response. While PCC are on hold regarding poultry unit planning applications there is no clear timeline, nor commitment to any decisions regarding the TAN and a moratorium.***

***Responses to letter from Julie James inline in black intalics.***

"Thank you for your letter of 25 October requesting an update following the River Pollution Summit at the Royal Welsh Show and an update on the Technical Advice Note for intensive agricultural development.

The First Minister chaired the second River Pollution Summit on the 8 March. ***Could the year please be included in date references.*** A written statement was issued that set out the discussions which took place and the commitments made by the organisations taking part. The statement can be found on the Welsh Government website at: https://www.gov.wales/written-statement-second-river-pollution-summit ***This does not refer to the TAN for intensive agricultural development but talks to affordable housing. IF agriculture, and specifically Intensive Poultry Units are included in this context could you confirm this and ensure it is obvious, not assumed.***

The summit endorsed an action plan 'Relieving Pressures on SAC River Catchments to Support Delivery of Affordable Housing'. The Action Plan includes the production of various guidance to help address the problems caused by phosphorus levels, and this is also available on the Welsh Government website at: https://www.gov.wales/relieving-pressures-special-areas-conservation-sac-river-catchments-support-delivery-affordable ***As above, the questions raised in the petition are not addressed in this Action Plan. Where is the lack of TAN being addressed?***

The summit recognised there is no single measure which will solve this problem and even a contribution of measures will take time to undo the cumulative harm of the past. One theme the action plan includes is the need to work constructively with the agriculture sector to find solutions to reduce and address excess nutrients in the soil and SAC rivers of Wales. I expect this work to include a contribution from the poultry sector. ***When will this expectation be confirmed, and what form will it take?***

I recognise new poultry developments have the potential to increase nutrient levels within river catchments, so I am giving careful consideration to a request received to call in all planning applications for poultry units currently before Powys County Council. ***What is the timeline on this consideration?*** Holding directions preventing the Council from approving the applications have recent been issued by officials. I will notify you of my decision on whether to call in the applications in due course. ***Please define due course.***

I am pleased to confirm work is progressing on the procurement of an All Wales Nutrient

Calculator, intended to help local planning authorities and applicants determine the level of phosphorus mitigation needed to enable development to progress in SAC river catchments. Contractors have just been appointed to deliver a working calculator by July and subsequently deliver a training programme.

In addition, a review of guidance relating to private treatment plants in areas with public sewers is currently being undertaken. This work is considering whether there are any short-term measures which could be implemented whilst long-term solutions to phosphorus levels are developed by Nutrient Management Boards, established to drive local measures to help improve the quality of SAC river catchments.

A Town and Country Planning Intensive Agriculture Working Group was established in 2019, comprised of stakeholders from public sector, farming unions and environmental groups. The Working Group was set up to contribute to a proposed new Technical Advice Note relating to planning for intensive agricultural developments, however, this was paused due to the pandemic. While it is the intention to return to this work, ***What is the status of this work and the timeline for returning to it?*** priority has been given to progressing the All Wales Nutrient Calculator and reviewing guidance relating to private treatment plans.

**P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Max Scott-Cook, ar ôl casglu 266 o lofnodion ar-lein ac 82 ar bapur, sef cyfanswm o 348 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym am ddwyn i gyfrif swyddogion y Bwrdd Iechyd a gwleidyddion sydd wedi cynllwynio i gau'r feddygfa ar Heol Albert (yng ngogledd Penarth) a symud cleifion i feddygfeydd Sili a Dinas Powys, yn ogystal â gorlwytho meddygfa Stanwell (Penarth Healthcare) yn ddifrifol. Credwn fod yr Aelod o'r Senedd lleol Vaughan Gething yn gwybod am y cynllun a gallai fod wedi tynnu sylw'r Gweinidogion a'r comisiynwyr perthnasol ar gyfer Pobl Hŷn, Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol at y pryderon i gynnal yr egwyddor o wasanaethau gofal iechyd yn agos i'r cartref. Mae'r system wedi ein siomi.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Ar ôl cael rhybudd rai blynyddoedd yn ôl fod prydles y feddygfa ar fin dod i ben, gwrthododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro brynu'r adeilad ar Heol Albert. Cafodd cynllun y Bwrdd i ddarparu adeilad amgen newydd yn ardal Cogan, sydd ymhell i ffwrdd, ei wrthod yn gyhoeddus. Nid oedd y cynllun hwn yn bodloni'r egwyddor o ddarparu gwasanaethau iechyd yn agos i gartref.
Roedd cynlluniau olynol a luniwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer creu hwb llesiant yn ardal Cogan yn diystyru hygyrchedd gwael y safle. Roedd y dewis a wnaed o ran safle yn gwahaniaethu yn erbyn yr henoed a phobl â chyfyngiadau symudedd. Gwrthododd y Bwrdd helpu'r feddygfa ar Heol Albert i barhau i weithredu. Yn hytrach, cynigiodd gyllid i feddygfeydd yn Sili, Penarth a Dinas Powys, er mwyn iddynt allu ehangu a chymryd cyfrifoldeb dros y 7,000 o gleifion dan sylw. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol ymgynghori ar y cynllun hwn. Mae ansawdd y gofal a ddarperir ym meddygfa Stanwell (Penarth Healthcare) wedi gwaethygu ers i'r feddygfa gael ei gorlwytho gan gleifion. Credwn mai dim ond 7 meddyg teulu sydd ar gyfer

17,000 o gleifion. Penderfyniad y Bwrdd Iechyd i fynd ar drywydd eiddo (adeilad) newydd yn y lleoliad anghywir sydd ar fai.
Mae modd i'r Bwrdd gydnabod ei gamgymeriad o hyd, a phrynu Meddygfa Albert oddi wrth y datblygwr eiddo.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1287
Ein cyf/Our ref EM/01219/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 26 Ebrill ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd.

Diolch ichi am roi diweddariad i mi ar y Ddeiseb hon ac rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon ychwanegol a godwyd. Gobeithio y gallwch ddeall nad wyf yn gallu ymyrryd yn y mater hwn gan ei fod yn parhau'n gyfrifoldeb i'r bwrdd iechyd.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 4.4

**P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr Linda Evelyn Joyce-Jones, ar ôl casglu 308 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ym 1999, newidiodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth i ganiatáu i fwy na dim ond milfeddygon cymwys fod yn berchen ar bractisau milfeddygol. Fe wnaeth hyn olygu bod modd i gorfforaethau rhanddeiliaid eciwiti preifat brynu i mewn i'r farchnad hon. Mae'r sefydliadau hyn sy'n cael ei gyrru gan elw wedi newid y proffesiwn fel mai prin y mae modd ei adnabod.
Mae llawer o rannau o Gymru lle mae bron yn amhosibl dod o hyd i bractis milfeddygol sy'n cael ei redeg yn annibynnol. Mae'r pryniant corfforaethol bellach yn ymestyn i ddarpariaeth y tu allan i oriau a phractisau atgyfeirio yn ogystal â phractisau cyffredinol. Y corfforaethau sydd hefyd yn berchen ar y labordai, y cwmnïau cyffuriau a'r amlosgfeydd anifeiliaid anwes, yn ogystal â rhandaliadau mewn llawer o gwmnïau bwyd anifeiliaid anwes. Mae monopoli o'r fath yn golygu bod bron dim posibilrwydd i'r ychydig o bractisau annibynnol sy'n weddill allu goroesi. Yn bennaf oherwydd eu grym prynu drwy recriwtio, o'r ysgol filfeddygol i'r practis, mae gan y corfforaethau fantais. Yn y cyd-destun hwn, mae eu dylanwad ar gyrff fel Coleg Brenhinol y Milfeddygon a Chymdeithas Milfeddygon Prydain i'w ddisgwyl.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
I'r rheini ohonom ag anifeiliaid anwes, mae'r monopoli hwn wedi cael effeithiau ofnadwy. Mae hyn yn cynnwys diffyg dewis o ran canfod practis annibynnol, gweld yr un milfeddyg ar gyfer parhad gofal a chost. Ond mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau clinigol yn cael eu gwneud gyda pholisïau corfforaethol yn fwyaf pwysig.
Mae'n drist dweud bod fy mhrofiad gyda fy nghath Rosa yn golygu na fyddaf byth yn ymddiried mewn rhai yn y proffesiwn. Mae anifeiliaid anwes yn rhan o deuluoedd pobl. Mae Covid, ynysu a phroblemau iechyd meddwl wedi gwneud y berthynas hon yn fwy gwerthfawr byth.

Mae'n gas gen i feddwl (ond wedi cael fy hysbysu) sut mae'r sector achub anifeiliaid yng Nghymru yn ymdopi. Oherwydd mae'n rhaid ei fod yn ymdrin â rhai o'r anifeiliaid sydd wedi wynebu'r cam-drin mwyaf a'r her glinigol fwyaf, ac yn aml mae ganddynt anghenion meddygol sylweddol a chymhleth. Er gwaethaf deisebau niferus i Lywodraeth y DU, nid yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cymryd unrhyw gamau o gwbl. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o'r blaen ynghylch anifeiliaid a'u lles, felly rydym yn gofyn i'r Senedd wneud hynny.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

# Eitem 4.5

**P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nicholas Bounds, ar ôl casglu 480 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae cyfreithiau cwympo coed o'r 1960au wedi dyddio erbyn hyn. Mae'r polisi cynllunio presennol yn caniatáu ar gyfer torri coed hynafol a hynod (veteran) i lawr.
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio mewn perthynas â Gorchmynion Diogelu Coed. Mae angen mwy o ddiogelwch ar eu cyfer, mae'r cyfreithiau'n llawer rhy hamddenol.
Mae polisïau cynllunio ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach ac ar raddfa fawr yn caniatáu i ddatblygwyr eiddo/perchnogion tir wneud cais am Drwydded Cwympo Coed drwy Cyfoeth Naturiol Cymru.
Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed hynafol a hynod.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**
Fideos ar sut i symud coeden heb ei thorri: -
- "How to Transplant and Move Large Trees Featuring an Air Tool":
https://youtu.be/rMIbv6cdAsk
"Tree Moving Machine":
https://youtu.be/9TtzQtVga7Y
"What does it cost to move a Large Tree":
https://www.greerbros.com/greerblog/cost-to-move-a-large-tree
Pam caniatáu i goeden hynafol neu hynod gael ei thorri? Mae'n syml - yn lle ei thorri, symudwch y goeden i rywle arall. Felly, dylai polisi cynllunio gael ei ddiwygio fel a ganlyn:
"Dim torri coed hynafol / hynod, rhaid i bob datblygwr ddadwreiddio a symud y coed i leoliad agos iawn".
Byddai hyn, yn ei dro, nid yn unig yn achub y coed ond hefyd yn creu swyddi ledled Cymru.
Achubwch goed hynafol a hynod.

Rhaid rhoi’r gorau i dorri coed i lawr!

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

# Eitem 4.6

**P-06-1313 Dylid caniatáu eithriadau i'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod i leihau niwed i fusnesau hunanddarpar dilys yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Suzanne Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 1,750 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Bydd y Cymdeithasau Masnach sy'n cynrychioli busnesau hunanddarpar dilys yng Nghymru (Cynghrair Twristiaeth Cymru, UK Hospitality Cymru a Changen PASC UK yng Nghymru) yn cwrdd â Llywodraeth Cymru â'r bwriad o gytuno ar fesurau lliniaru i leihau'r niwed yn sgil cyflwyno'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod i fusnesau hunanddarpar dilys sy'n eiddo i bobl yng Nghymru. Nid ail gartrefi na llety achlysurol yw'r rhain. Mae dros 30 y cant o'r busnesau hyn wedi dweud y bydd yn rhaid iddynt gau neu gael eu gwerthu heb yr eithriadau hyn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Y corff o dystiolaeth am y niwed: https://www.pascuk.co.uk/wales-182-days-reports/
PRIF OFYNION
- Peidio â dechrau cyfri'r diwrnodau o 22 Ebrill, h.y. yn ôl-weithredol.
- Proses apelio

EITHRIADAU
- Llety sy'n destun cyfyngiadau drwy'r broses caniatâd cynllunio
- Llety sydd o fewn cwrtil prif breswylfa
- Gadael i unedau lluosog ar un safle nodi'r cyfartaledd ar gyfer deiliadaeth ar draws yr holl unedau.
- Os nad yw'r unedau yn stoc dai a dynnwyd oddi ar y farchnad ond y gellir profi drwy gofnodion cynllunio a rheoli adeiladu y cawsant eu creu o adeiladau masnachol neu amaethyddol gwag neu arallgyfeirio ar ffermydd.
- Os yw'r eiddo'n cael ei redeg gan elusen
- Dylai wythnosau a roddir gan berchnogion i elusennau gyfrif tuag at ddiwrnodau dan ddeiliadaeth.

- Os yw eich busnes llety tymor byr yn destun TAW
- Adolygu'r 182 diwrnod os bydd dirwasgiad swyddogol yng Nghymru, pandemig neu os gorfodir safleoedd i gau yn lleol.
- Cyfnod gras i fusnesau newydd

HEPGORIADAU

Ystyried nifer y diwrnodau a gymerir i wneud atgyweiriadau/gwelliannau i eiddo neu gyfnodau o salwch neu gyfrifoldebau gofalu

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Datganiad Ysgrifenedig: Premiymau'r Dreth Gyngor: Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Rheoliadau i Estyn yr Eithriadau rhag Premiymau

**Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Heddiw, mae'n bleser gennyf gyhoeddi canlyniadau dau ymgynghoriad pellach ar y defnydd o bremiymau'r dreth gyngor yng Nghymru.

Ar 11 Tachwedd 2022, **cyhoeddais y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd** yn dilyn ein **hymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar**. Rhyddheais ddau ymgynghoriad technegol hefyd, gan geisio sylwadau ar Reoliadau drafft i estyn yr eithriadau rhag premiymau'r dreth gyngor, ac ar ganllawiau diwygiedig ar weithredu, gweinyddu a gorfodi premiymau.

Cafodd yr ymgyngoriadau eu rhyddhau i baratoi ar gyfer y newidiadau i drethi lleol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2023, sef diwygio'r meini prawf sy'n pennu a gaiff llety gwyliau hunanddarpar ei restru ar gyfer ardrethi annomestig yn lle'r dreth gyngor, a'r cynnydd yn uchafswm premiymau'r dreth gyngor y gall cynghorau eu codi ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor.

Mae'r ymgyngoriadau diweddaraf yn rhan o'n gwaith parhaus i sicrhau bod perchnogion eiddo yn gwneud cyfraniad teg at y cymunedau lle mae cartrefi ganddynt neu lle maent yn rhedeg busnesau. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at ddull tair elfen Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau a'r Gymraeg sy'n gallu codi o gael nifer mawr o ail gartrefi a llety gwyliau.

Byddai'r Rheoliadau drafft yn estyn yr eithriadau presennol rhag premiymau fel y byddent yn gymwys i eiddo sydd ag amod cynllunio sy'n pennu mai dim ond fel llety gwyliau tymor byr y gellir ei ddefnyddio, neu sy'n golygu na ellir ei feddiannu'n barhaol fel unig breswylfa na phrif breswylfa person. Byddai eiddo o'r fath yn atebol am y dreth gyngor ar y gyfradd safonol os nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer cael ei ddosbarthu fel eiddo annomestig, ond ni fyddai modd codi premiwm arno. Mae hyn yn gyson â'n safbwynt polisi sy'n nodi y dylai perchnogion eiddo wneud cyfraniad teg at gymunedau lleol, naill ai drwy drethi lleol neu drwy'r budd economaidd y maent yn ei gyflawni i ardal.

Codwyd un pwynt bach ynghylch eglurder technegol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft, ac mae'r ddeddfwriaeth ddrafft wedi cael ei diwygio i ddileu'r cyfeiriad at ‘tymor byr’ yn sgil hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod eiddo nad oes cyfnod amser wedi'i bennu yn ei amod cynllunio llety gwyliau yn cael ei eithrio rhag y premiwm.

Yn ogystal â chyhoeddi'r crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth, mae'n bleser gennyf hefyd gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â

gwneud **Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2023**. Y bwriad yw y byddant yn dod i rym o 1 Ebrill 2023, gan gymhwyso'r eithriadau newydd o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi heddiw **ganlyniad yr ymgynghoriad ar y canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol ar bremiymau'r dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (ail gartrefi)**. Mae'r rhain yn rhoi rhagor o arweiniad ar weinyddu a gorfodi premiymau'r dreth gyngor. Maent hefyd yn tynnu sylw at yr opsiynau ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau lleol pan nad yw eiddo hunanddarpar nad yw wedi'i gyfyngu gan amodau cynllunio yn bodloni'r meini prawf gosod. At hynny, o 1 Ebrill 2023, anogir awdurdodau lleol i gyhoeddi ar eu gwefannau fanylion y refeniw sy'n cael ei gynhyrchu drwy godi premiwm yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi'n fuan ac yn berthnasol at ddibenion ymarferol ar unwaith.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi a thai nad ydynt yn fforddiadwy mewn cymunedau ledled Cymru drwy ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthu. Mae hyn yn cynnwys rhagor o bwerau i awdurdodau lleol newid premiymau'r dreth gyngor.

**Cyhoeddwyd gyntaf**

28 Chwefror 2023

# Eitem 4.7

**P-06-1317 Cydnabod pwysigrwydd Cynorthwywyr Addysgu fel asedau pwysig i ysgolion drwy godi eu cyflog**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Caroline Hugill, ar ôl casglu 1,405 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae Cynorthwywyr Addysgu yn rhan hynod bwysig o'r gwaith o redeg ysgolion yng Nghymru, ond nid yw ein Llywodraeth yn cydnabod hynny ar hyn o bryd, o gofio faint y mae'r staff hyn yn cael eu talu.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Heb Gynorthwywyr Addysgu, ni fyddai ysgolion yn gallu darparu ar gyfer y nifer uchel o fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn gweithio'n galed, ac mae'r cyflog isel y maent yn ei gael am y gwaith hwn yn enghraifft o gamwahaniaethu. Mae rôl Cynorthwywyr Addysgu yn anodd, ac mae'r pwysau gwaith arnynt ar hyn o bryd yn aruthrol. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys cefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (yn aml ar sail un i un), addysgu grwpiau o blant ac weithiau dosbarthiadau cyfan os bydd athro'n absennol, cynllunio gwersi, trefnu gweithgareddau allgyrsiol a sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial – ond nid yw eu gwaith yn gyfyngedig i'r dyletswyddau hynny. Yn anffodus, oherwydd bod y cyflog mor isel, nid yw llawer o Gynorthwywyr Addysgu yn gallu fforddio aros yn y swydd, ac mae nifer fawr o staff profiadol yn cael eu gorfodi i chwilio am swyddi eraill. Mae'n rhaid i hyn newid.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref: Petitions P-06-1317

Dyddiad / Date: 16 May 2023

[redacted]

Annwyl Mr Sargeant,

**Mae deiseb P-06-1317 yn cydnabod Cynorthwywyr Addysgu fel ased pwysig i ysgolion drwy godi cyflog.**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26Ebrill ynglŷn â chwestiynau gan y Pwyllgor Deisebau wrth ystyried y ddeiseb uchod.

Mae CLILC yn deall y rôl bwysig y mae Cynorthwywyr Addysgu yn ei chwarae wrth helpu i addysgu dysgwyr. Maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r dysgu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y budd mwyaf o'u gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd yn yr ystafell ddosbarth ac oddi yno. Rydym hefyd yn cydnabod rôl hanfodol Cynorthwywyr Addysgu yn ystod pandemig COVID 19 wrth gefnogi dysgwyr ac rydym yn ddiolchgar am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau yn ystod heriau digynsail y pandemig.

Mae CLILC yn un o'r partneriaid allweddol yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion (FfPGY) ochr yn ochr â chynrychiolwyr Undebau Llafur a Llywodraeth Cymru ac maent wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol.

Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Staff Cymorth Ysgolion fel is-grŵp o'r Fforwm gyda'r nod o gyrraedd swydd gyfartal ledled Cymru ar gyfer staff cymorth mewn perthynas â:

- Talu a defnyddio,
- Mynediad i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol; a
- Safoni rolau.

Mae aelodaeth o'r grŵp yn cynnwys swyddogion CLILC, swyddogion AD yr ALI, cydweithwyr LIC, a chynrychiolwyr o Undebau Llafur, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Penaethiaid a Chynorthwywyr Addysgu. Caiff diweddariadau amserol eu bwydo'n ôl i brif gyfarfodydd y Fforwm ar gyfnodau drwy gydol y flwyddyn ac fe'u

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.



wlga.cymru
wlga.wales
@WelshLGA

bwydir yn ôl i Fwrdd Gweithredol CLILC drwy'r Llefarydd Addysg. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadeirio cyfarfodydd y Fforwm ac mae'n gefnogol iawn i ymdrechion parhaus y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Hyd yn hyn, mae LIC wedi arwain ar y flaenoriaeth mynediad at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, ac erbyn hyn mae rhwydweithiau cenedlaethol ar waith sy'n sicrhau tegwch ar y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer pob cynorthwyydd addysgu ledled Cymru sydd hefyd yn cynnwys datblygu adnoddau ar gyfer arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ar ddefnyddio cynorthwywyr addysgu. Mae CLILC yn gwbl gefnogol i'r gweithgareddau hyn.

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio ar safoni rolau wrth ddatblygu disgrifiadau swyddi cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr addysgu i'w defnyddio ym mhob Awdurdod Lleol ledled Cymru. Mae ymgysylltu'n agos â swyddogion AD yr ALl a chynorthwywyr addysgu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwella'r amodau gwaith ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn cael ei sicrhau. Y nod yw cael copïau drafft i'w cyflwyno i'r Fforwm erbyn diwedd y flwyddyn. Mae CLILC yn gwbl gefnogol i'r gwaith hwn ac yn cydnabod yr angen am gysondeb ac ecwiti o fewn y rolau hyn.

Mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y ffordd orau o wella amodau cyflog i gynorthwywyr addysgu. Mae CLILC yn cydnabod yr angen am gysondeb ac ecwiti o ran amodau cyflog i gynorthwywyr addysgu, gan mai Awdurdodau Lleol yw'r cyflogwyr (ac yn glynu wrth y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau ar gyfer Staff Cymorth (Y Llyfr Gwyrdd)), ac rydym yn cydnabod bod gwahanol ddulliau o fewn strwythurau cyflog yr ALl sy'n adlewyrchu ystyriaethau lleol.

Fodd bynnag, mae CLILC yn cydnabod bod angen mwy o drafodaeth gyda LIC ar gynyddu cyllidebau ALl i alluogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael yn effeithiol â rhai o'r heriau a'r cymhlethdodau sy'n ymwneud ag amodau cyflog i gynorthwywyr addysgu, yn ogystal ag aelodau staff eraill o weithlu'r ALlau. Fel y gwyddoch, mae Awdurdodau Lleol yn wynebu pwysau ariannol enfawr ar draws yr holl wasanaethau o dan yr hinsawdd bresennol gyda'r argyfwng costau byw, ac felly mae pwysigrwydd trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru yn allweddol wrth sicrhau mwy o gyllid sydd nid yn unig yn cefnogi blaenoriaethau a phwysau'r gweithlu ond sy'n gwella tâl ac amodau gwaith ar gyfer ei weithlu, sy'n cynnwys cynorthwywyr addysgu.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth i drafodaethau'r Pwyllgor.

Yn gywir



Y Cyng Cllr. Andrew Morgan OBE
**Arweinydd CLILC**
WLGA Leader

**P-06-1319 Rhowch groesfan i gerddwyr ar yr A4042 wrth groesffordd Goytre Arms a lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Janet Butler, ar ôl casglu 423 lofnodion ar-lein ac 233 lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 656 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Er mwyn ei gwneud yn ddiogel i breswylwyr Penperllenni groesi'r A4042 yn Goytre Arms dylid rhoi croesfan i gerddwyr ac ehangu'r terfyn cyflymder 20mya sydd eisoes yn bodoli yn y pentref i gynnwys y rhan hon o'r A4042.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1319
Ein cyf/Our ref LW/00860/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

23 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 26 Ebrill ynghylch Deiseb P-06-1319 – Darparu croesfan i gerddwyr ar yr A4042 wrth groesffordd y Goytre Arms a lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya, ac amgáu hefyd wybodaeth ychwanegol a roddwyd i'r Pwyllgor gan y Deisebwr.

Mae asesiad ynghylch darparu croesfan i gerddwyr ym Mhenperllenni eisoes wedi dechrau. Mae'r trothwy o ran bod angen croesfan wedi'i fodloni a phenderfynir ar y math mwyaf priodol o groesfan yn unol â'r cyfyngiadau ar y safle, fel cyffyrdd.

Bydd fy swyddogion yn ychwanegu'r cais am groesfan i gerddwyr ger y safleoedd bws yn Llanofer at y rhestr o gynlluniau i'w hystyried yn y dyfodol.

Fel y gwyddoch, rydym wrthi'n diweddaru'r canllaw ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru i adlewyrchu polisi presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno'r terfyn 20mya trwy'r wlad a gwireddu uchelgeisiau Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021. Caiff y canllaw newydd ei gyhoeddi nes ymlaen eleni a gallai arwain at newid yr amodau ar gyfer gostwng terfynau cyflymder yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r terfynau cyflymder ar draws y Rhwydwaith Cefnffyrdd, gan gynnwys yr A4042, ar ôl cyhoeddi'r canllaw.

O ran estyn y terfyn 20mya, rydym dal wrthi'n casglu data o ardaloedd y cam cyntaf. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn ddiweddar gyda'r adroddiad monitro interim cyntaf o'r ardaloedd hyn, ac mae'r data cychwynnol yn hynod galonogol.

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan:
Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: Cwestiynau Cyffredin | LLYW.CYMRU
Terfynau cyflymder 20mya | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan droi at wasanaethau bws, Stagecoach South Wales sy'n rhedeg gwasanaeth X3 ac maen nhw wedi cadarnhau na fyddan nhw'n newid gwasanaeth X3 yn y tymor byr gan y bydd angen iddynt asesu'r rhwydwaith cyfan wrth i gyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ddod i ben yng Ngorffennaf 2023. Mae fy swyddogion wedi gofyn i dîm rheoli'r Cwmni ystyried cais i estyn y gwasanaethau X3 17.15 ac 18.16 o Gaerdydd i wasanaethu Goetre Fawr yn eu cynlluniau tymor hir.

Rwyf wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol sefydlu timau cynllunio rhwydweithiau rhanbarthol er mwyn deall effaith dod â'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau i ben a datrys y problemau yn y rhwydwaith fydd yn debygol o godi wrth newid y drefn gyllido.

Rydym yn cynnig model newydd ar gyfer gwasanaethau bws yng Nghymru, fydd yn caniatáu i ni weithio gydag awdurdodau lleol i greu'r rhwydweithiau bws sydd eu hangen ar eu cymunedau a llunio contractau ar gyfer eu darparu.

Dyma'r cynllun mwyaf pellgyrhaeddol yn holl wledydd y DU ac mae'n gam pwysig at ddadwneud y niwed a wnaed yn sgil datreoleiddio. Rhaid gwneud yn siŵr bod gan bobl wasanaeth bws y gallan nhw ddibynnu arno, sy'n hawdd ei ddefnyddio ac sy'n rhoi pobl cyn elw.

Ni ddaw deddfwriaeth dros nos, felly yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i ystyried pa welliannau cyflym y gallwn eu gwneud i brofiadau teithwyr ar fysiau. Rydym wedi cyhoeddi Bws Cymru, ein cynllun ar gyfer bysiau sy'n nodi rhai o'r camau hyn.


Mae seilwaith y rheilffyrdd, fel ailagor gorsafoedd, yn fater sydd wedi'i gadw i Lywodraeth y DU. Er y ddadl gref o blaid datganoli'r cyfrifoldebau am y rheilffyrdd yn llawn i Lywodraeth Cymru law yn llaw â dyraniad ariannol teg, mae Llywodraeth y DU wedi troi clust fyddar at alwadau Llywodraeth Cymru am hyn. O ddatganoli'r cyfrifoldebau'n llawn, gellid gweddnewid y rheilffyrdd yng Nghymru a gwireddu gweledigaeth Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, ar gyfer y rheilffyrdd gan ddarparu system trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr sy'n hygyrch, integredig a chynaliadwy.

Fodd bynnag, nid oes gennym ni na Llywodraeth Cymru gynlluniau ar y funud i ailagor Gorsaf yng Ngoetre Fawr.

Mae Cyngor Sir Fynwy (CSF) wedi clustnodi llwybr beiciau yn eu Map Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) fydd yn cysylltu Little Mill a Phenperllenni. Nid yw trywydd y llwybr wedi'i bennu eto ac ni wyddys beth fydd ei berthynas â'r gefnffordd. Bydd angen holi CSF i gael rhagor o wybodaeth ond dylid nodi bod y cynllun yn un o flaenoriaeth isel ar yr ATNM.

O ran llwybr beiciau rhwng Penperllenni a Llanofer, mae hyn wedi'i nodi fel llwybr canolig ei flaenoriaeth ar yr ATNM. Unwaith eto, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch ei drywydd er y dangosir ei fod yn dilyn yr A4042. Nid yw'r cynllun hwn yn llwybr â blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac nid oes cynlluniau ar droed i ddatblygu cynllun Teithio Llesol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

## P-06-1319 Provide a pedestrian crossing on A4042 at Goytre Arms crossroads and reduce the speed limit to 20mph, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.06.23

I note the comments from Lee Waters to Jack Sargent. I also note in separate correspondence from Lee Waters, that a light controlled crossing for the Goytre Arms crossroads is in the future work programme and I sincerely hope this work will be carried out in 24/25.

It is also encouraging to note that a crossing on the A4042 Llanover is also now being reconsidered. As residents pointed out to me only this week: 'There may only be a handful of houses on the southbound side but we all have to cross back over when we return from Abergavenny.' A crossing here would be greatly appreciated.

Drop kerbs continue to be an issue for mobility users and a more urgent approach to fixing this would be appreciated.

As regards the Stagecoach X3 service, I feel confident usage will increase once residents at both locations feel safe to cross the road.

I am hoping that the petitions committee will now turn their attention to the speed limit at the Goytre Arms. I will remind you that our Primary School, Community Centre, Village Hall and the Hospital at Aderyn are all within 100 metres of the crossroads.

I believe precedent has already been set on the A40 in Abergavenny and ask again that the speed limit here be reduced to 20mph. The remainder of the village will be 20mph from September as planned and I am raising awareness of the change amongst villagers in both Penperlleni and Llanover. Responses are largely positive.
Villagers continue to run their Go safe campaign. Speeders are being reported and overall there has been positive effect on slowing traffic down.

I am continuing to raise the profile for including us in the active travel network with MCC.

As regards the rail network and future plans. There is growing momentum from villagers who have set up a petition to 'Reopen the station at Nant-y-Derry' which is currently live. Indications seem to suggest that the 250 vote mark is likely to be reached. I think it is time to bring this conversation forward in Welsh and UK government.

I look forward to watching on 3rd July.

Best Wishes,

Jan Butler

**P-06-1320 Dyrannu cyllid ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau ei fod yn gynaliadwy**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Fisher, ar ôl casglu cyfanswm o 1,893 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Bydd cynaliadwyedd y gwasanaethau llywodraeth leol sy'n cael eu darparu ledled Castell-nedd Port Talbot yn cael ei herio'n sylweddol os na ddarperir cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth. Mae effaith barhaus Covid-19 a'r rhyfel yn Wcráin yn creu galw digynsail ar wasanaethau'r cyngor sydd eisoes dan straen. Rydym yn amcangyfrif diffyg o £5 miliwn ar gyfer 2022-23 ac £20 miliwn pellach ar gyfer 2023-24. Mae ein cymunedau'n cael trafferth ymdopi â'r argyfwng costau byw ac mae'n rhaid osgoi unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae angen digon o adnoddau ychwanegol arnom i'r Cyngor allu parhau i gefnogi ein cymunedau drwy'r argyfyngau hyn, cynnal y gwasanaethau hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt a sicrhau gwelliannau tymor hir i les amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ein trigolion. Heb yr arian hwn, yr unig ddewis arall yw torri swyddi a gwasanaethau, gan danseilio atebolrwydd democrataidd os collir gwasanaethau i'r sector preifat neu'r trydydd sector a disbyddu cronfeydd wrth gefn. Ar ôl dros ddegawd o fesurau cyni, nid oes opsiynau meddal ar ôl. Bydd addysg ein plant a'n pobl ifanc, gofal a chefnogaeth i blant a phobl agored i niwed (gan gynnwys rhai sy'n ddigartref, ffoaduriaid neu geiswyr lloches), cynnal a chadw tir y cyhoedd a gwasanaethau ehangach y Cyngor yn cael eu diraddio. Bydd telerau ac amodau llywodraeth leol yn disgyn ymhellach y tu ôl i gymaryddion y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n dwysáu'r heriau o ddarparu adnoddau i'n sefydliad mewn marchnad lafur hynod gystadleuol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan

- Gorllewin De Cymru

**P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhys Bowler, ar ôl casglu cyfanswm o 779 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae gan Rhys gyflwr Nychdod Cyhyrol Duchenne. Mae'n byw mewn ofn am ei fywyd bob dydd, ac yn cael ei adael ar ei ben ei hun am oriau'n gobeithio na fydd y peiriant anadlu y mae'n dibynnu arno yn torri. Rhaid iddo ddewis rhwng gofal cymdeithasol a ariennir yn wael a phecyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG sy'n golygu nad yw'n cael dewis pwy sy'n gofalu amdano.

Pe bai Rhys yn byw yn Lloegr, byddai ganddo gyllideb iechyd bersonol, a fyddai'n caniatáu iddo ddefnyddio Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn ogystal â gallu dewis pwy sy'n gofalu amdano. Nid yw hyn ar gael yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rhys ydw i, rydw i'n 33 oed ac yn byw gyda Nychdod Cyhyrol Duchenne ym Mhontypridd, Cymru. Mae gen i anawsterau symud sylweddol ac mae angen peiriant anadlu arnaf er mwyn anadlu.

Rydw i wedi cyflogi fy nghynorthwywyr gofal fy hun ers degawdau ac mae gennyf lawer o brofiad o'u hyfforddi a'u cyflogi. Rydw i wedi cael profiadau gwael wrth ddefnyddio asiantaethau a pheidio gallu dweud fy marn o ran pwy sy'n gofalu amdanaf. Rydw i eisiau dewis fy nghynorthwywyr gofal fy hun. Rydw i eisiau gwybod pwy sy'n dod i'm cartref i'm helpu gyda fy ngofal personol, ac rwyf am iddynt fod yn bobl rwy'n ymddiried ynddynt ac sydd wedi'u hyfforddi o ran y ffordd orau i ddarparu gofal i mi. Peidiwch â gadael i'm profiad gael ei wastraffu!

Rydw i eisiau Cyllideb Iechyd Bersonol er mwyn i mi gael gofal 24 awr a chael dewis pwy yw fy nghynorthwywyr gofal. Mae hyn wedi bod ar gael yn Lloegr

ers 2014, mae'n hen bryd i Gymru gymryd hyn o ddifrif a dechrau rhoi dewis a rheolaeth go iawn i bobl dros y gofal maen nhw'n ei gael.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

**Y Pwyllgor Deisebau**

—

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Centrica
Chris O'Shea

6 June 2023

Dear Mr O'Shea

Petition P-06-1326 The Senedd should scrutinise the prepayment meter scandal in Wales

Thank you for coming to give evidence to the Committee last week. I indicated at the hearing that we might wish to follow up on a couple of points, and I am writing to seek further information on debt collection.

During the session you said that Centrica would no longer use debt collection agencies, and that you would bring the function in house in order to have greater control.

Please could you elaborate on how this will work and in particular what kind of training will be provided to your debt collection teams, and what monitoring you intend to put in place to ensure that all staff have received it?

Thank you again for your engagement in the Committee's work. I look forward to reading your response.

I would be grateful if you could send your response by e-mail to the clerking team at petitions@senedd.wales.

If you have any queries, please contact the Committee clerking team at the e-mail address below, or on 0300 200 6454.

Yours sincerely

Jack Sargeant MS

Chair

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Pwyllgor Deisebau
—
Petitions Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Scottish Power
Andrew Ward

6 June 2023

Dear Mr Ward

Petition P-06-1326 The Senedd should scrutinise the prepayment meter scandal in Wales

Thank you for coming to give evidence to the Committee. I indicated at the hearing that we might wish to follow up on a couple of points, and I am writing to seek your response on two matters.

First, you said in the session "Every day, we have thousands of people who just decide they would prefer to go on holiday rather pay for their energy, or prioritise something else."

I was curious, what is the evidence behind this statement? Is it possible for energy suppliers to know the choices that consumers are making?

Secondly, I wanted to clarify the use of debt collectors going forward. During the session you said that Scottish Power would continue to use debt collection agencies, with whom you have a long-term relationship, to recover debts. You said that you "make sure those agencies are trained sufficiently".

Please could you elaborate on this and let us know what kind of training is provided and what monitoring is in place to ensure that all staff have received it?

Thank you again for your engagement in the Committee's work. I look forward to reading your response.

I would be grateful if you could send your response by e-mail to the clerking team at petitions@senedd.wales.

If you have any queries, please contact the Committee clerking team at the e-mail address below, or on 0300 200 6454.

Yours sincerely

Jack Sargeant MS

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

ScottishPower

Mr Jack Sargeant MS
Chair, Petitions Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

19 June 2023

Dear Mr Sargeant,

Thanks for your follow up letter after your committee's evidence session on Monday 15th May 2023 on the use of Pre-Payment Meters (PPMs) by energy suppliers. I've set out below responses to each of your queries.

I referenced some customers prioritising other things above paying for their energy bills, of course, you are right, I can't know the choices that every customer is making but I do draw on personal experiences and the conversations I have with people where it is clear that a small minority of customers are making such decisions over payment of their energy costs. There is no suggestion that has any relation to those financially vulnerable customers who are clearly making very difficult day to day decisions on what costs to prioritise to protect their families. However, what I can confirm is that we do see customers who can pay for their energy choosing not to, and we're concerned that the pause of use of prepayment is creating increases in these "won't pay" rather than "can't pay" customer groups, with early data suggesting that this is indeed the case. We are concerned that the lack of a PPM option for those customers will lead to significant increases in debt costs to all customers and will add to the impact to those customers already struggling with their bills.

With regard to our use of debt collection agencies (DCAs), we undertake a range of activities to ensure they are suitably skilled to work on our behalf, which includes the training we referenced at the hearing, but also our ongoing monitoring and assurance processes and our contractual controls.

Our training includes a comprehensive set of training material, and all agents must complete the course before undertaking any work on our behalf. The training covers a range of activities and topics, including those relating to visits to a customer property, identification of customer vulnerabilities, safe and reasonably practicable checks and the process for switching to prepayment meter. Alongside classroom training, we also utilise training activities that ensure agents gain "on-the-job" experience including shadowing of experienced team members. New agents are then subject to assessment by experienced team members via observation to ensure that they are following the correct processes.

Our monitoring and controls cover a range of actions to support us in ensuring agents are suitably trained, and that we have ongoing oversight of agent activity and customer experience to support quick action where we identify any issues. This includes:

- Weekly engagement with DCAs via reporting and meetings
- Regular review and updates of training and process/policy materials being shared with DCAs and tracking to ensure training is completed in timely manner
- Weekly call monitoring by both ScottishPower and the DCA
- Quarterly Field audits undertaken by the DCA


Internal Use

- Quarterly on site reviews by ScottishPower account managers and annual audits validating policies and procedures

I hope this provides you with the additional information you need, but I would be happy to follow up on any area if you have further questions.

Regards,

**Andrew Ward**
CEO, ScottishPower Retail

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Energy UK
Dhara Vyas

6 June 2023

Dear Ms Vyas

Petition P-06-1326 The Senedd should scrutinise the prepayment meter scandal in Wales

Thank you for coming to give evidence to the Committee, and for providing further information on 16 May. I indicated at the hearing that we might wish to follow up on a couple of points, and I am writing to seek further information regarding debt collection.

We heard different perspectives from Centrica and Scottish Power during the session, and I've asked them both to provide further details of the training they provide to those tasked with collecting their debts.

On behalf of Energy UK, is there any such thing as 'best practice' or guidance on how best to go about it, that the Committee should be aware of in our discussions? I appreciate the answer may be 'no' in this case.

Thank you again for your engagement in the Committee's work. I look forward to reading your response.

I would be grateful if you could send your response by e-mail to the clerking team at petitions@senedd.wales, if possible within 14 working days.

If you have any queries, please contact the Committee clerking team at the e-mail address below, or on 0300 200 6454.

Yours sincerely



Jack Sargeant MS

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mayameen Meftahi, ar ôl casglu 227 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**

Mae'r syniad y tu ôl i dai plant yn seiliedig ar yr arferion gorau a welir yn yr UDA a Sgandinafia. Gan gydnabod bregusrwydd plant sy'n ddioddefwyr, a'r niwed y mae cyfweliadau niferus yn ei achosi iddynt, mae tai plant yn ymateb sy'n ystyriol o blant wrth ymdrin ag achosion lle y cam-driniwyd plentyn yn rhywiol.

Yn y DU, mae dau dŷ plant yn ninas Llundain, ond nid oes yr un yng Nghymru.

Nid yw plant yn gwybod at bwy nac i ble y gallent droi, nid ydynt yn gwybod bod cymorth ar gael, ond trwy gynnig Tai Plant ledled y DU, gallwn achub plant.

Parhau â llochesi i ddioddefwyr trais domestig, ond dylai fod Tai Plant ar gyfer plant sy'n dioddef camdriniaeth rywiol.

Gwyddom y bydd llawer o blant sy'n cael eu cam-drin yn ceisio dianc rywbryd; byddant am ddod yn rhydd o'u sefyllfa, ond nid oes ganddynt rywle i droi. Cânt eu dychwelyd adref, yn ôl i afael y sawl sy'n eu cam-drin.

Gallai darparu tŷ diogel sy'n ystyriol o blant agor y ffordd at ddatgelu a diogelu.

Yng Ngwlad yr Iâ, mae model 'Barnahús' ar waith er 1998, sef lle ar gyfer cynnal cyfweliadau fforensig, gwneud datganiadau llys, cynnal archwiliadau meddygol a chael mynediad at wasanaethau therapiwtig, i gyd o dan un to. Dylem roi hyn ar gael, fel y gwnawn o ran llochesi i ddioddefwyr trais domestig. Ers i Wlad yr Iâ sefydlu'r model Barnahús, mae nifer y plant sy'n gofyn am gymorth ar ôl dioddef camdriniaeth rywiol wedi mwy na dyblu bob blwyddyn, mae nifer y cyhuddiadau wedi treblu, ac mae nifer yr euogfarnau

wedi dyblu. Mae hyn yn ddigon o dystiolaeth i ddangos bod y tai hyn yn hanfodol.

Dylid darparu tai plant, ac ar ben hynny dylid dysgu i blant fod yr opsiynau hyn ar gael.

Ymunwch â ni yn yr ymgyrch i fynd i'r afael â'r mater hwn, a phwyso ar i Lywodraeth Cymru ddarparu Tŷ Diogel yng Nghymru – ni allwn ddisgwyl i blant fynd i Lundain, hyd yn oed lle maent yn gwybod am fodolaeth tai o'r fath.

**Gwybodaeth ychwanegol**
Mae ar ein plant angen rhywle iddynt fynd iddo, mae angen iddynt fod yn ddiogel, ac mae angen iddynt allu cyrraedd y cymorth cywir i achub y plant hyn rhag oes o ddioddef oherwydd Camdriniaeth Rywiol.

Llofnodwch y ddeiseb hon a gwneud i bethau ddechrau symud!

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru

**P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer yr Anabl**
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tracy Locke, ar ôl casglu cyfanswm o 121 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn ofyniad cyfreithiol i bob meddygfa teulu gael gwelyau triniaeth a theclynnau codi llydan y gellir eu haddasu at ddefnydd cleifion anabl, fel y gellir eu harchwilio pryd bynnag fo angen.

Cefais fy ngeni â Spinabifida ym 1970 ac, fel goroeswr y clefyd hwn, rwyf wedi fy mharlysu o uwchben y wast i lawr ac yn defnyddio cadair olwyn llawn amser. Yn 2017 cefais ddiagnosis o ganser y bledren cam 4. Ni all gael ei brofi'n gyfreithiol, ond rwy'n credu'n gryf pe bawn i wedi cael fy archwilio yn gynharach yn y blynyddoedd cynt yn fy meddygfa teulu ar wely triniaeth llydan y gellir ei addasu, efallai gyda chymorth teclyn codi, yna ni fyddai'r diagnosis o ganser wedi dod mor hwyr. Ers i mi fod yn edrych ar y mater hwn, mae nifer o fenywod anabl wedi siarad â mi ynglŷn â sut nad oes ganddynt fynediad cyfartal i brofion ceg y groth oherwydd y broblem hon hefyd. Yn aml, mae pobl yn credu bod cael mynediad i'r anabl yn golygu lifftiau a rampiau yn unig, ond, ym maes gofal iechyd, mae'n llawer mwy cymhleth. Beth am ymuno ynghyd i wneud mynediad i ofal iechyd yn gyfartal i bawb.

**Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru